Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
18/2019
Dyddiad cyhoeddi:
24/03/2020

# Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80038-172-8

# Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd

Awdur:
Chris Timmins, Beaufort Research
Yr Athro Nick Clifton, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Timmins, C. and Clifton, N. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 18/2020
Ar gael yn: https://llyw.cymru/arolwg-dinasyddion-tasglur-cymoedd

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Launa Anderson
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl y cynnwys

Rhestr o ffigurau a thablau ........ 2

1. Cyflwyniad ........ 6
2. Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni ........ 24
3. Gwell gwasanaethau cyhoeddus ........ 47
4. Fy nghymuned leol ........ 63
5. Casgliadau ........ 84

Atodiad 1 – Yr 16 o destunau a oedd yn rhan o'r ymchwil
Atodiad 2 – Holiadur yr arolwg
Atodiad 3 – Pwysoli a dadansoddi ystadegol

## Rhestr o'r ffigurau a'r tablau


Tabl 1.1: Ffrâm samplu a metrigau'r gwaith maes ..... 10

Ffigur 1.1: Map o ardal Tasglu'r Cymoedd ..... 13

Tabl 1.2: Poblogaeth Tasglu'r Cymoedd yn ôl Awdurdod Lleol ..... 14

Tabl 1.3: Y boblogaeth 16-64 mlwydd oed (2018) ..... 14

Tabl 1.4: Cyflogaeth a diweithdra (Ion 2018-Rhag 2018) ..... 15

Tabl 1.5: Anweithgarwch economaidd (Ion 2018-Rhag 2018) ..... 16

Tabl 1.6: Enillion: cyflog wythnosol gros yn ôl man preswylio (2018) ..... 16

Tabl 1.7: Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ..... 17

Tabl 1.8: Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth (Ion 2018-Rhag 2018) ..... 18

Tabl 1.9: Dadansoddiad o swyddi cyflogeion (2017) yn ôl sector diwydiannol ..... 19

Tabl 1.10: Cyfrifon busnes (2018) ..... 20

Ffigur 2.1: Statws gwaith yr ymatebydd ..... 24

Ffigur 2.2: Pa un a ydynt yn gweithio'n llawn-amser ynteu'n rhan-amser ac yn y sector cyhoeddus neu breifat ..... 25

Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno â'r gosodiad 'Rwy'n cael fy nhrin â pharch yn fy ngweithle' (Yr holl weithwyr ac yn ôl rhywedd a chategori oedran y gweithiwr) ..... 22

Ffigur 2.4: Y ganran a oedd yn cytuno â'r gosodiad 'Rwy'n cael fy nhrin â pharch yn fy ngweithle' (Yr holl weithwyr ac yn ôl gweithwyr llawn-amser neu ran-amser ac yn ôl gweithwyr yn y sector cyhoeddus neu breifat) ..... 23

Ffigur 2. 5: Y ganran a oedd yn cytuno â'r gosodiad 'Rwy'n gweithio dan gryn dipyn o densiwn' (Yr holl weithwyr ac yn ôl rhywedd a chategori oedran y gweithiwr) ..... 24

Ffigur 2.6: Anhawster trefnu awr neu ddwy o'r gwaith i ymdrin â mater personol (Yr holl weithwyr heb gynnwys y rhai sy'n hunangyflogedig ac yn ôl rhywedd a chategori oedran y gweithiwr) ..... 25

Ffigur 2.7: Y ganran a oedd yn cytuno â'r gosodiad 'Rwy'n gallu penderfynu'r amser yr wyf yn dechrau ac yn gorffen gwaith' (Yr holl weithwyr ac yn ôl gweithwyr llawn-amser neu ran-amser) ..... 26

Ffigur 2.8: Lefel y dewis dros y ffordd y mae eu swydd yn cael ei gwneud (%) (Yr holl weithwyr ac yn ôl rhywedd a chategori oedran y gweithiwr) ..... 27

Ffigur 2.9: Pa un a fyddai gan y gweithiwr unrhyw lais mewn penderfyniad a fyddai'n newid y ffordd y mae ei swydd yn cael ei gwneud (Yr holl weithwyr ac yn ôl gweithwyr llawn-amser neu ran-amser) ..... 28

Ffigur 2.10: Y ganran sy'n ofni diweithdra yn y 12 mis nesaf a'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd ..... 28

Ffigur 2.11: Y ganran a gafodd bob math o hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf ..... 28

Ffigur 2.12: Y ganran sy'n credu bod yr hyfforddiant yn ddigonol er mwyn aros gyfuwch â'r sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni eu swydd ..... 29

Ffigur 2.13: I ba raddau y mae gweithwyr yn gallu defnyddio sgiliau, profiad a galluoedd blaenorol yn eu swydd bresennol (%) ..... 29

Ffigur 2.14: Rhesymau pam mai dim ond ychydig neu ychydig iawn o'u profiad, sgiliau a galluoedd blaenorol y mae gweithwyr yn gallu eu defnyddio yn eu swydd bresennol (%).... 30

Ffigur 2.15: Pa un a oes gan weithwyr gydweithwyr Cymraeg (%) .................................... 31

Ffigur 2.16: Pa un a yw gweithwyr yn siarad gydag unrhyw un y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd (%) ........................................................................................ 33

Ffigur 2.17: Crynodeb o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn y gwaith ymhlith siaradwyr Cymraeg (%) 34

Ffigur 2.18: Math o weithle y mae gweithwyr yn teithio iddo (%) ........................................ 35

Ffigur 2.19: Pellter a deithir i'r gweithle \ gweithle yr ymwelir ag ef fwyaf aml – y ganran sy'n teithio gwahanol bellteroedd (Yr holl weithwyr ac yn ôl gweithwyr llawn-amser neu ran-amser ac yn ôl gweithwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat)......................................................... 35

Ffigur 2.20: Pa un a yw gweithwyr yn byw ac yn gweithio yn yr un awdurdod lleol (%)........ 36

Ffigur 2.21: Bodlonrwydd (marc allan o 10) ar amser a chost siwrneiau i'r gweithle – canran a roddodd y gwahanol sgoriau a'r sgôr cymedrig ............................................................... 37

Ffigur 2.22: Bodlonrwydd (sgôr cymedrig allan o 10) ar amser siwrneiau i'r gweithle a chost siwrneiau i'r gweithle ............................................................................................ 37

Ffigur 2.23: Prif ddull cludiant ar gyfer teithio i'r gweithle (%) .............................................. 38

Tabl 2.3: Rhesymau dros beidio â defnyddio cludiant cyhoeddus i deithio i'r gweithle – y ganran a roddodd bob ateb ........................................................................................ 39

Ffigur 2.24: Bodlonrwydd ar nifer ac ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth a oedd ar gael (%).. 40

Ffigur 2.25: Bodlonrwydd ar nifer ac ansawdd y cyfleodd cyflogaeth a oedd ar gael (%) (yn ôl gweithwyr a'r rhai nad oeddent yn gweithio).................................................................... 41

Ffigur 2.26: Pa un a hoffai'r rhai nad oeddent yn gweithio gael swydd yn y dyfodol (%)...... 41

Ffigur 2.27: Pellter yr oeddent yn barod i'w deithio (y rhai nad oeddent yn gweithio) o'i gymharu a'r pellter a oedd yn cael ei deithio (gweithwyr presennol) – y ganran a oedd yn barod i deithio / a oedd yn teithio pob pellter ....................................................................... 42

Ffigur 2.28: Amser yr oeddent yn barod i'w dreulio'n teithio (y rhai nad oeddent yn gweithio) o'i gymharu â'r amser yr oeddent yn teithio (gweithwyr presennol) – y ganran a oedd yn barod i deithio / a oedd yn teithio am bob cyfnod o amser.................................................. 43

Ffigur 2.29: Tebygolrwydd o ddod o hyd i swydd sy'n cyfateb i'r profiad, sgiliau a gallu o'i gymharu â dod o hyd i swydd ar lefel is na'r profiad, sgiliau a gallu (%) .............................. 44

Ffigur 2.30: Y ganran a oedd yn cytuno â gosodiadau ynglŷn â chael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth: gosodiadau negyddol ......................................................................... 45

Ffigur 2.31: Y ganran a oedd yn cytuno â gosodiadau ynglŷn â chael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth: gosodiadau cadarnhaol......................................................................... 45

Ffigur 3.1: Y ganran a oedd yn cytuno â gosodiadau am wasanaethau awdurdodau lleol.. 47

Ffigur 3.2: Bodlonrwydd ar gael apwyntiad mewn meddygfa deulu sy'n gyfleus i mi (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl y rhai sy'n byw yn ardaloedd gwahanol fyrddau iechyd) ................ 48

Tabl 3.1: Rhesymau dros anfodlonrwydd ar amseroedd apwyntiadau meddygon teulu (%) 49

Ffigur 3.3: Bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i feddygfa deulu (%) (Yr holl ymatebwyr a'r rhai a oedd yn byw yn ardaloedd gwahanol fyrddau iechyd) ..................................................... 50

Ffigur 3.4: Bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i feddygfa deulu (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl rhywedd, oedran yr ymatebydd a pha un a oes ganddynt afiechyd cyfyngol neu anabledd ai peidio) ... 51
Ffigur 3.5: Bodlonrwydd ar y gwasanaeth cyffredinol mewn meddygfeydd teulu (%) ... 52
Ffigur 3.6: Bodlonrwydd ar gael apwyntiad mewn ysbyty o fewn ffrâm amser resymol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd ac yn ôl y rhai a oedd yn byw yn ardaloedd gwahanol fyrddau iechyd) ... 53
Ffigur 3.7: Bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i'r ysbyty lleol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd) ... 54
Ffigur 3.8: Bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i ysbyty lleol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl rhywedd a pha un a oes ganddynt afiechyd cyfyngol neu anabledd ai peidio) ... 54
Ffigur 3.9: Bodlonrwydd ar y gwasanaeth cyffredinol yn yr ysbyty lleol (%) ... 55
Ffigur 3.10: Bodlonrwydd ar wasanaethau Ambiwlans (%) ... 56
Ffigur 3.11: Bodlonrwydd ar allu cael lle mewn ysgol dda i'm plentyn / plant (%) ... 57
Ffigur 3.12: Bodlonrwydd ar ysgol y plentyn – Cynradd ac Uwchradd (%) ... 58
Ffigur 3.13: Bodlonrwydd ar allu cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol ar fy nghyfer i fy hun neu ar gyfer aelod o'r teulu (%) ... 59
Ffigur 3.14: Bodlonrwydd ar allu siarad gyda rhywun am anghenion neu faterion tai cymdeithasol a all fod gan fy nheulu (%) ... 60
Ffigur 3.15: Bodlonrwydd ar fynediad at wahanol wasanaethau hamdden (%) ... 61
Ffigur 3.16: Bodlonrwydd ar ddefnyddio gwahanol wasanaethau hamdden (%) ... 62
Ffigur 4.1: Bodlonrwydd ar yr ardal leol fel lle i fyw (%) (Yn ôl yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd) ... 63
Ffigur 4.2: Bodlonrwydd ar yr ardal leol fel lle i fyw (%) (Yn ôl yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel ym MALIC) ... 64
Tabl 4.1: Y pethau gorau ynglŷn â byw yn yr ardal leol [digymell] ... 66
Ffigur 4.3: Pa un a fyddai'r ymatebydd yn hoffi aros neu adael yr ardal leol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd) ... 67
Ffigur 4.4: Pa un a fyddent yn hoffi aros neu adael yr ardal leol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel ym MALIC) ... 68
Tabl 4.2: Rhesymau dros ddymuno symud allan o'r ardal leol [digymell] ... 69
Ffigur 4.5: Y ganran a oedd yn cytuno ag amryw osodiadau ynglŷn â chydlyniant cymunedol 70
Ffigur 4.6: Y ganran sy'n cytuno'n gryf ag amryw osodiadau ynglŷn â chydlyniant cymunedol (yn ôl categori oedran yr ymatebydd) ... 71
Ffigur 4.7: Y ganran sy'n cytuno'n gryf ag amryw osodiadau ynglŷn â chydlyniant cymunedol (yn ôl cwintel ym MALIC) ... 72
Ffigur 4.8: Bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd – y ganran sy'n rhoi sgoriau mewn gwahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd) ... 73
Ffigur 4.9: Hapusrwydd cyffredinol a pha un a ydynt yn teimlo bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 10 74

Ffigur 4.10a: Hapusrwydd cyffredinol – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel MALIC) .................................... 75

Ffigur 4.10b: Hapusrwydd cyffredinol – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl pa un a oes gan yr ymatebydd afiechyd cyfyngol neu anabledd ai peidio) .......................................................................... 76

Ffigur 4.11a: Pa un a oeddent yn teimlo bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil – y ganran a roddodd sgôr ar wahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel ym MALIC) ........................................................................................ 76

Ffigur 4.11b: Pa un a oeddent yn teimlo bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil – y ganran a roddodd sgôr ar wahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl pa un a oes gan yr ymatebydd afiechyd cyfyngol neu anabledd ai peidio) ............................... 77

Ffigur 4.12: Pa un a ellir ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd) 78

Ffigur 4.13: Pa un a yw pobl yn teimlo'n unig – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 6 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd) .............. 79

Ffigur 4.14: Iechyd cyffredinol hunangofnodedig (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd) ......................................................................................... 80

Ffigur 4.15: Nifer yr ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw – y ganran a nododd bob amrediad niferoedd (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd) ................................ 81

Ffigur 4.16: Nifer yr ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw – y ganran a nododd bob amrediad niferoedd (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel ym MALIC) .................................................. 82

Ffigur 4.17: Dull cludiant arferol ar gyfer cael mynediad at wahanol wasanaethau yn yr ardal leol (%) ........................................................................................................... 83

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Y cefndir a'r amcanion

**1.1** Mae Cymoedd De Cymru yn gartref i hyd at 30% o boblogaeth Cymru. Mae'r ardal yn wynebu nifer o heriau sydd wedi gwreiddio'n ddwfn a achoswyd yn bennaf gan ddirywiad diwydiant trwm a diwedd mwyngloddio yn yr ardal a oedd yn golygu ei bod wedi syrthio ar ôl gweddill Cymru yn economaidd ond hefyd o ran ansawdd bywyd, cyrhaeddiad addysgol a sgiliau, er enghraifft:

- Mae oddeutu 64% o'r boblogaeth sy'n byw yn yr ardal a gwmpesir gan dasglu'r Cymoedd[1] yn byw mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o'r oedolion (3 ym mhob deg neu fwy) heb unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn cymharu â 35% o boblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd sy'n byw mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o'r oedolion heb unrhyw gymwysterau.

- Mae tua 54% o'r boblogaeth yn y Cymoedd[2] yn byw mewn ardaloedd lle mae cyfran yr hawlyddion budd-daliadau'n fwy na 175 am bob 1,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio. Mae hyn yn cymharu â 33% o boblogaeth Cymru ar y cyfan sy'n byw mewn ardaloedd â'r lefel hon o hawlyddion budd-daliadau.

- Ar gyfer ardaloedd a gwmpesir gan y Tasglu, mae disgwyliad oes ar gyfer dynion a menywod yn is ar y cyfan na Chymru gyfan. Mae'r un peth yn wir ar gyfer disgwyliad oes iach hefyd.

- Ledled Cymru mae 20 y cant o oedolion yn dweud eu bod yn ysmygu a 58 y cant yn dweud eu bod dros bwysau neu'n ordew. O'i gymharu, ym Merthyr Tudful mae 25 y cant o oedolion yn dweud eu bod yn ysmygu a 67 y cant yn dweud eu bod dros bwysau neu'n ordew. Ym Mlaenau Gwent, 26 y cant a 62 y cant yw'r ffigyrau.

- Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn uwch ar y cyfan yn yr awdurdodau lleol hynny sy'n gyfan gwbl yn ardal y Cymoedd[3]

[1] Y Cymoedd yn ôl y diffiniad o'r ardal a gwmpesir gan y Tasglu.
[2] Y Cymoedd yn ôl y diffiniad o'r ardal a gwmpesir gan y Tasglu.
[3] Y Cymoedd yn ôl y diffiniad o'r ardal a gwmpesir gan y Tasglu.

nag ar gyfer Cymru gyfan. Er enghraifft, mae cyfran y disgyblion cymwys yn 25 y cant ym Mlaenau Gwent ac yn 22 y cant ym Merthyr Tudful, o'i gymharu ag 17 y cant yng Nghymru gyfan.

1.2 Cafodd Tasglu Gweinidogol Cymoedd De Cymru ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016 ac roedd yn cael ei gadeirio'n wreiddiol gan Alun Davies, y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Gymraeg ar y pryd. Ar adeg yr arolwg[4] roedd y Tasglu'n cael ei gadeirio gan Lee Waters, y Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Julie James, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio ac Eluned Morgan, y Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oed, yn eistedd ar y Tasglu hefyd, ynghyd â grŵp o ymgynghorwyr arbenigol o fyd busnes, addysg, y byd academaidd a llywodraeth leol.

1.3 Sefydlwyd y Tasglu i adeiladu ar waith a wnaed yn flaenorol i adfywio'r ardal[5], er enghraifft, Cynllun Gofodol Cymru (2004), Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd (2006-2014), Parc Rhanbarthol y Cymoedd (2009-2014) a'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (2007-2013, 2014-2020) ond mae wedi'i fwriadu i gynnig dull a gydgysylltir ac a dargedir yn fwy i ddiwallu anghenion cymunedau'r Cymoedd. Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd y Tasglu ei Gynllun, *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*.[6]

1.4 Trwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd mae barn a phrofiadau presennol y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd yn ganolog i'r Cynllun. Fe arweiniodd hyn at dair blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cynllun:

- **Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni:** Cau'r bwlch cyflogaeth presennol gyda gweddill Cymru trwy helpu tua 7,000 o bobl sy'n byw yn y Cymoedd ac sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar i gael gwaith.

[4] Mae aelodaeth y Tasglu wedi newid ers amser ysgrifennu'r adroddiad.
[5] Ceir rhestr o wahanol weithgareddau adfywio yn y Cymoedd
[6] Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cyflwyniad

- **Gwell gwasanaethau cyhoeddus**: Helpu pobl i fyw bywydau iachach, gan wella'u llesiant corfforol a meddyliol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gydgysylltiedig ac yn fforddiadwy. Gwella canlyniadau addysg i'r holl blant a chau'r bwlch cyrhaeddiad.
- **Fy nghymuned leol:** Manteisio i'r eithaf ar y defnydd o adnoddau naturiol a threftadaeth. Bydd canol trefi'r Cymoedd yn llawn bywyd, gyda mannau gwyrdd deniadol, a fydd yn fodd i gefnogi economïau lleol. Bydd y Cymoedd yn gyrchfan cydnabyddedig i dwristiaid, a fydd yn denu ymwelwyr o bob cwr o Gymru, y DU a'r tu hwnt.

1.5 Mae'r Cynllun Cyflawni manwl ar wahân[7] a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017 yn nodi gwahanol weithgareddau sy'n tanategu'r meysydd allweddol hyn. I ategu gwaith y Tasglu ceir strategaeth gyfathrebu a fydd yn codi proffil y Cymoedd, yn annog pobl i ymfalchïo yn yr ardal leol ac yn gwella'r canfyddiad am yr ardal.

1.6 Y rhesymeg ar y cyfan dros wneud ymchwil yw er mwyn sicrhau bod barn a phrofiadau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd yn parhau i gael ei clywed ac yn helpu i lunio'r Cynllun Cyflawni.

1.7 Bydd yr ymchwil hon yn darparu arwydd cynnar o unrhyw newid canfyddedig yn y meysydd a gwmpesir gan y Cynllun Cyflawni ac yn helpu i adnabod meysydd ffocws allweddol ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Mae'r Cynllun Cyflawni'n ddogfen fyw ac fe'i adolygir ac fe'i diweddерir yn flynyddol i sicrhau bod y camau gweithredu yn dal i fynd rhagddynt ac y gellir cynnwys camau gweithredu newydd.

## 1.2 Dull ymchwil

### 1.2.1 Y dull ar y cyfan

1.8 Yr elfen graidd o'r ymchwil oedd Arolwg Dinasyddion o'r rhai sy'n byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Fodd bynnag, roedd y gofynion o ran gwybodaeth ar gyfer yr astudiaeth a oedd yn cynnwys 16 o destunau ymchwil (gweler Atodiad 1) ar draws tair

[7] Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni

thema'r Cynllun Cyflawni yn eang a barnwyd na fyddai un arolwg yn gallu bodloni'r rhain i gyd.

1.9 Ar ben hynny, nid oedd tîm y prosiect am ddyblygu gwybodaeth a oedd eisoes ar gael o ffynonellau eraill. Felly, rhagflaenwyd yr Arolwg Dinasyddion gan ymchwil ddesg a oedd wedi'i bwriadu i adnabod a mapio gwybodaeth a oedd ar gael yn rhwydd ac y gellid ei defnyddio i ateb y cwestiynau ymchwil.

### 1.2.2 Ymchwil ddesg

1.10 Defnyddiwyd dull ac iddo ddau gam ar gyfer yr ymchwil ddesg. Roedd y cam cyntaf yn archwilio data Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) o gyfresi 2016-2017 a 2017-2018 ac yn mapio hwn yn erbyn y 18 o destunau ymchwil ym Manyleb yr Arolwg.

1.11 Fe esgorodd hyn ar ddadansoddiad o'r bylchau a adroddodd pa un a oedd pob cwestiwn yn cael ei ateb gan mwyaf / yn rhannol neu'n peidio â chael ei ateb o gwbl gan ACC. Rhoddodd hyn arweiniad wrth ystyried i ba raddau yr oedd angen ffynonellau eraill ac roedd y rhain yn cynnwys y Cyfrifiad, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Arolwg o'r Llafurlu, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, arolwg blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o oriau ac enillion (ABOE), Arolwg Cofrestr Busnesau a Chyflogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Working Futures 2014-2024, y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) yn ogystal â mynegeion cyfansawdd sy'n gysylltiedig â chystadleurwydd – h.y. Mynegai Cystadleurwydd Rhanbarthol y DU.

1.12 Fe amlygodd canlyniadau cyffredinol yr ymarfer hwn ble'r oedd bylchau o ran gwybodaeth ac fe wnaethant felly roi arweiniad o ran cynnwys holiadur yr Arolwg Dinasyddion.

### 1.2.3 Arolwg Dinasyddion

1.13 Darparwyd y ffrâm samplu a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn gan Arolwg Cenedlaethol Cymru (2017-2018)[8]. Darparodd dadansoddwyr Llywodraeth Cymru fanylion 1,519 o ymatebwyr a oedd yn byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd ac a oedd wedi cytuno ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy at ddibenion ymchwil.

1.14 Cafodd ymatebwyr gyfweliad dros y ffôn a chynhaliwyd y cyfweliadau rhwng 26 Mawrth a 10 Mai 2019.

1.15 Cynigiwyd y cyfle i'r holl ymatebwyr gymryd rhan yn yr arolwg naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ar y cyfan, cyflawnwyd cyfradd ymateb o **47%** ac mae'r union fanylion fel a ganlyn:

**Tabl 1.1: Ffrâm samplu a metrigau'r gwaith maes**

| | *nifer* | *% o'r rhestr gysylltu wreiddiol* |
|---|---|---|
| Cyswllt gwreiddiol o ACC | 1,519 | |
| Dim rhifau ffôn | 15 | 1% |
| Rhifau anghywir | 203 | 13% |
| | *nifer* | *% o'r ffrâm samplu ddiwygiedig* |
| Ffrâm samplu ddiwygiedig | 1301 | |
| Wedi gwrthod cymryd rhan | 301 | 23% |
| Methu â chysylltu | 391 | 30% |
| **Wedi cwblhau cyfweliadau / cyfradd ymateb** | **609** | **47%** |

1.16 Er bod ffrâm samplu'r arolwg hwn yn deillio o arolwg tebygolrwydd ar hap o'r boblogaeth sy'n oedolion yng Nghymru (ACC 2017-2018), ceir potensial ar gyfer bias diffyg ymateb o fewn ein sampl o gyfweliadau ar dri cham gwahanol:

[8] Arolwg Cenedlaethol Cymru: gwybodaeth gefndirol

- Ymateb i'r arolwg tebygolrwydd ar hap gwreiddiol (ACC)
- Ymateb i gytuno i gael cyswllt drachefn yn dilyn cwblhau ACC
- Ymateb i Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd

1.17 Er mwyn helpu i liniaru'r bias diffyg ymateb hwn cafodd arolwg Tasglu'r Cymoedd ei bwysoli yn ôl ffactorau demograffig allweddol fel ei fod yn cynrychioli oedolion 16+ oed sy'n byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Y ffactorau hyn oedd:

- Rhywedd;
- Oedran;
- Statws economaidd;
- Deiliadaeth; a hefyd
- Cwintel ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).[9]

1.18 Roedd yr holiadur ar gyfer yr arolwg wedi'i strwythuro yn ôl y tair prif thema yn y Cynllun Cyflawni: Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni, gwell gwasanaethau cyhoeddus a fy nghymuned leol. Roedd hyn yn ystyried y ffynonellau gwybodaeth a nodwyd ar adeg yr ymchwil ddesg i osgoi dyblygu.

1.19 Ar gyfartaledd roedd yn cymryd tua 15 munud i gyfranogwyr gwblhau'r holiadur. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 2.

1.20 Drwyddi draw yn yr adroddiad hwn dygir cymariaethau rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth a gyfwelwyd fel rhan o'r Arolwg Dinasyddion (er enghraifft, y rhai o wahanol grwpiau oedran neu statws gweithio) i ddeall a oes ganddynt farn, agweddau neu ymddygiadau amrywiol. Mae'r adroddiad yn defnyddio profion ystadegol i gymharu canlyniadau rhwng grwpiau o'r boblogaeth. Lle mae gwahaniaeth rhwng dau grŵp yn cael ei ddisgrifio fel un 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad trwy hap

[9] MALIC yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd perthynol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n gosod yr holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mewn trefn restrol o 1 (mwyaf amddifadus) i 1909 (lleiaf amddifadus). Mae rhannu'r canlyniadau hyn yn gwintelau'n gwahanu'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hyn yn bum grŵp o faint cyfartal (niferoedd yr ACEHI) yn seiliedig ar eu safle yn fersiwn 2014 o'r Mynegai.

a damwain yn llai nag un ymhob 20 ac felly gellir ei gyffredinoli i’r boblogaeth ehangach.

1.21 Ceir rhagor o fanylion am y modd y pwysolwyd y data ac am y gwaith dadansoddi ystadegol yn Atodiad 3.

## 1.3 Ardal Tasglu’r Cymoedd

1.22 Mae ardal Tasglu’r Cymoedd (TC) yn cynnwys pum awdurdod lleol (ALl) llawn (Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Torfaen) a phedair ardal ALl rannol (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys), fel a ddangosir yn ffigur 1.1. Newidiodd ffin ardal Tasglu’r Cymoedd yn haf 2019 ac mae bellach yn cynnwys Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth yn Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Yn sgîl y newid cymharol ddiweddar yn ardal y Tasglu ni fydd yr arolwg yn cynnwys yr ardaloedd newydd hyn. Nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn ffigur 1.1 gan bod y map yn dangos yr ardal a oedd wedi’i chynnwys yn yr arolwg y mae’r adroddiad ymchwil hwn yn seiliedig arno.

**Ffigur 1.1: Map o ardal Tasglu'r Cymoedd**




*Ffynhonnell: Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, Llywodraeth Cymru (2016)*

1.23 Mae Tabl 1.2 yn dangos y gyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod lleol sydd o fewn ardal Tasglu'r Cymoedd. O'r ALlau rhannol, dim ond cyfran fach (6%) o boblogaeth Abertawe a Phowys sydd o fewn ardal Tasglu'r Cymoedd fel y'i diffinnir ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI). Ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr mae'r ffigwr yn uwch (39%) ond yn dal i fod yn lleiafrif, mewn cyferbyniad â Chastell-nedd Port Talbot (64%).

1.24 Mae data ar gyfer Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd ac arolygon ACC a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddiffiniad manwl gywir (yn seiliedig ar ACEHI) o ardal Tasglu'r Cymoedd[10]. Ar gyfer ffynonellau eraill, lle'r oedd data ar gael ar lefel yr ALl yn unig fe benderfynwyd peidio â chynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Powys ac Abertawe o ddata heblaw am ACC a oedd ar gael ar lefel yr ALl fel dirprwy ar gyfer ardal Tasglu'r Cymoedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llai na 50% o boblogaeth y tri ALl hwn yn ardal Tasglu'r Cymoedd ac yn gyson â'r dull a

[10] Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yw'r bloc adeiladu ar ddaearyddiaeth y Cyfrifiad, sy'n deillio o unedau cod post.

fabwysiadwyd gan Adroddiad Tystiolaeth Tasglu'r Cymoedd[11]. Ar ben hynny, gan bod gan ardal Tasglu'r Cymoedd yn ei chyfanrwydd boblogaeth o 813,000 (26% o boblogaeth Cymru), dim ond 10% o ardal Tasglu'r Cymoedd y mae'n ei hepgor, gan gynnwys dim ond 6% sy'n byw y tu allan i'w ffiniau fel y'i diffinnir gan y lefel ACEHI. Mae felly'n gyfaddawd synhwyrol a phragmataidd.

**Tabl 1.2: Poblogaeth Tasglu'r Cymoedd yn ôl Awdurdod Lleol**

| | Poblogaeth yn ardal TC | Cyfanswm y boblogaeth | % o'r boblogaeth yn ardal TC |
|---|---|---|---|
| RhCT | 239,127 | 239,127 | *100* |
| Caerffili | 180,795 | 180,795 | *100* |
| Torfaen | 92,264 | 92,264 | *100* |
| Blaenau Gwent | 69,609 | 69,609 | *100* |
| Merthyr | 59,953 | 59,953 | *100* |
| Castell-nedd Port Talbot | 91,332 | 142,090 | *64* |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 56,518 | 144,288 | *39* |
| Abertawe | 15,905 | 245,480 | *6* |
| Powys | 8,161 | 132,515 | *6* |

## 1.4 Proffil cyflogaeth ac economaidd ardal Tasglu'r Cymoedd

1.25 Er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer canlyniadau'r arolwg, mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o broffil cyflogaeth ac economaidd ardal Tasglu'r Cymoedd.

1.26 Mae'r boblogaeth o oedran gweithio yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn debyg o ran cyfran i'r un yng Nghymru gyfan, er bod menywod o oedran gweithio'n rhoi cyfrif am gyfran ychydig bach yn uwch o boblogaeth ardal Tasglu'r Cymoedd.

**Tabl 1.3: Y boblogaeth 16-64 mlwydd oed (2018)**

| | TC (poblogaeth) | % o boblogaeth TC | % o boblogaeth Cymru |
|---|---|---|---|
| Dynion 16-64 oed | 240,700 | 62.3 | 62.2 |
| Menywod 16-64 oed | 246,300 | 61.5 | 60.9 |
| Yr holl bobl 16-64 oed | 487,200 | 61.9 | 61.5 |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol – yn seiliedig ar awdurdodau lleol yn ôl band oedran pum mlynedd
Nodiadau: cyfran o gyfanswm y boblogaeth yw %

[11] *Papur Tystiolaeth Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*

1.27 Mae Tabl 1.4 yn darparu dadansoddiad o'r boblogaeth economaidd weithgar rhwng 16 a 64 mlwydd oed yn ardal Tasglu'r Cymoedd ac mewn perthynas â Chymru gyfan. Mae cyfraddau gweithgarwch ar y cyfan yn ardal Tasglu'r Cymoedd ychydig bach yn uwch nag ar gyfer Cymru (a'r gyfradd ddiweithdra'n is) gyda gogwydd bach tuag at fod yn gyflogai ac i'r gwrthwyneb i ffwrdd oddi wrth hunangyflogaeth. Mae'r dadansoddiad yn ôl rhywedd yn dilyn proffil perthynol tebyg er bod y cyfraddau gweithgarwch yn is ar gyfer menywod.

**Tabl 1.4: Cyflogaeth a diweithdra (Ion 2018-Rhag 2018)**

| Yr Holl Bobl: | **Tasglu'r Cymoedd (niferoedd)** | **% o boblogaeth Tasglu'r Cymoedd** | **% o boblogaeth Cymru** |
|---|---:|---:|---:|
| Economaidd weithgar† | 376,400 | 77.3 | 76.7 |
| Mewn cyflogaeth† | 354,700 | 72.8 | 73.1 |
| Cyflogeion† | 318,200 | 65.3 | 63.2 |
| Hunangyflogedig† | 33,100 | 6.8 | 9.3 |
| Di-waith (seiliedig ar fodel)§ | 20,000 | 4.1 | 4.5 |
| | | | |
| Dynion: | | | |
| Economaidd weithgar† | 197,100 | 81.9 | 81.0 |
| Mewn cyflogaeth† | 183,800 | 76.4 | 76.7 |
| Cyflogeion† | 158,600 | 65.9 | 63.1 |
| Hunangyflogedig† | 23,100 | 9.6 | 12.9 |
| Di-waith (seiliedig ar fodel)§ | 13,300 | 5.5 | 5.1 |
| | | | |
| Menywod: | | | |
| Economaidd weithgar† | 179,200 | 72.8 | 72.4 |
| Mewn cyflogaeth† | 170,900 | 69.4 | 69.6 |
| Cyflogeion† | 159,400 | 64.7 | 63.2 |
| Hunangyflogedig† | 10,000 | 4.1 | 5.8 |
| Di-waith (seiliedig ar fodel)§ | 9,500 | 3.9 | 3.8 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
† - mae'r niferoedd ar gyfer y rhai sy'n 16 oed a throsodd, mae'r % ar gyfer y rhai sy'n 16-64 oed
§ - mae'r niferoedd a'r % ar gyfer y rhai sy'n 16 oed a throsodd. Cyfran o'r rhai sy'n economaidd weithgar yw'r %. Mae hyn yn rhoi ffigwr uwch na'r un sy'n seiliedig ar nifer yr hawlyddion (2.8% o'r boblogaeth sy'n 16-64 oed ar gyfer Cymru gyfan ym mis Mai 2019).

1.28 Mae Tabl 1.5 yn cadarnhau'r darlun hwn, gyda chyfran uwch o'r rhai economaidd anweithgar yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn dweud eu bod yn ceisio swydd (23.7%) na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn awgrymu ychydig bach o rwystredigaeth berthynol o ran ceisio cyflogaeth addas yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Caiff hyn ei archwilio ymhellach gan ddefnyddio data'r Arolwg Dinasyddion yn adran 2.6 o'r adroddiad hwn.

**Tabl 1.5: Anweithgarwch economaidd (Ion 2018-Rhag 2018)**

| | Tasglu'r Cymoedd (niferoedd) | % o boblogaeth TC | % o boblogaeth Cymru |
|---|---|---|---|
| Anweithgar (cyfanswm) | 117,600 | 22.7 | 23.3 |
| Yn dymuno cael swydd | 27,900 | 23.7 | 21.7 |
| Ddim yn dymuno cael swydd | 89,600 | 76.3 | 78.3 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Nodiadau: mae'r niferoedd ar gyfer y rhai sy'n 16-64 oed. Cyfran o'r rhai sy'n economaidd weithgar yw'r %,ac eithrio'r cyfanswm, sy'n gyfran o'r rhai 16-64 mlwydd oed

1.29 O dabl 1.6 gellir gweld bod cyflog wythnosol gros yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn £503.50, sydd ychydig yn is na ffigwr Cymru gyfan. Fodd bynnag, o fewn y ffigwr cyffredinol hwn mae mwy o wahaniaeth ar gyfer gweithwyr benywaidd, sy'n awgrymu bod problem fwy'n bodoli yma o ran ansawdd swyddi.

1.30 Ochr yn ochr â hyn mae tabl 1.7 yn dangos y darlun mewn perthynas â gwerth ychwanegol gros (GVA). O'i fynegi'n syml, amcangyfrif yw gwerth ychwanegol gros o gyfanswm gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn yr economi. Mae gwerth ychwanegol gros yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn sylweddol is na ffigwr Cymru (gan adleisio'r sylwadau uchod mewn perthynas ag enillion) gyda'r cyfanswm a'r ffigwr y pen yn tyfu islaw lefel Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod 2010-17.

**Tabl 1.6: Enillion: cyflog wythnosol gros yn ôl man preswylio (2018)**

| | TC (£) | Cymru (£) |
|---|---|---|
| Gweithwyr Llawn-amser | 503.5 | 518.6 |
| Gweithwyr Llawn-amser Gwrywaidd | 550.4 | 551.9 |
| Gweithwyr Llawn-amser benywaidd | 444.4 | 474.1 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o oriau ac enillion – dadansoddiad preswylwyr
Nodiadau: Enillion canolrifol mewn punnoedd ar gyfer cyflogeion sy'n byw yn yr ardal.

**Tabl 1.7: Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)**

| | TC | Cymru |
|---|---|---|
| Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) | £10,118m | £62,188m |
| Newid Blynyddol Cyfartalog mewn Gwerth Ychwanegol Gros 2010-17 | 3.4% | 3.9% |
| Gwerth Ychwanegol Gros y Pen | £15,767 | £19,899 |
| Newid Blynyddol Cyfartalog mewn Gwerth Ychwanegol Gros y Pen 2010-17 | 3.2% | 3.5% |

Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ffigyrau 2017, cyhoeddwyd ym is Rhagfyr 2018
Nodiadau: Ffigyrau GVA isranbarthol ar gyfer ar lefel NUTS3 yn unig. Felly mae'r ffigwr ar gyfer Tasglu'r Cymoedd yma'n cynnwys y Cymoedd Canol (Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf) a Chymoedd Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen). Mae felly'n cynnwys tuag 80% o boblogaeth Tasglu'r Cymoedd fel y'i diffinnir ar lefel ACEHI, ac yn cynnwys pob un o'r 5 ALI sy'n gyfan gwbl o fewn ardal Tasglu'r Cymoedd.

1.31 Mae Mynegai Cystadleurwydd Rhanbarthol y DU yn fethodoleg sy'n pwyso a mesur gallu cystadleuol dynamig cymharol ardaloedd lleol i lawr i lefel yr awdurdod unedol (h.y. y DU=100). Dadleuir ei fod yn fesur mwy cyfannol nag ystyried mewnbynnau (cyfraddau gweithgarwch, sgiliau), allbynnau (Gwerth Ychwanegol Gros, cyfraddau cyflogaeth) a deilliannau (megis cyflogau, diweithdra) ar wahân. [12] O'r Mynegai gellir deillio sgôr ar gyfer ardal Tasglu'r Cymoedd o 77.4, h.y. dros 23% islaw cyfartaledd y DU.

1.32 Mae Tabl 1.8 yn darparu dadansoddiad o strwythur galwedigaethol ardal Tasglu'r Cymoedd. Ar y cyfan, mae 36% o'r gweithlu'n cael eu cyflogi fel rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion, mewn galwedigaethau proffesiynol a'r galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig (grwpiau galwedigaethol 1-3), sydd islaw cyfartaledd Cymru. Mae'r galwedigaethau gweinyddol a chrefftau medrus (grwpiau galwedigaethol 4 a 5 yn Nosbarthiad Galwedigaethol Safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol) ychydig bach uwchlaw cyfartaledd Cymru, tra bo gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau (grŵp 8) yn fwy sylweddol uwchlaw'r cyfartaledd hwnnw. Mae hwn yn batrwm sy'n adlewyrchu gwaddol strwythur diwydiannol y Cymoedd gynt i raddau helaeth.

[12] Mae'r newidynnau yn y mynegai hwn yn cynnwys:
mewnbynnau: cyfraddau gweithgarwch economaidd; cyfraddau cychwyn busnes; busnesau am bob 1000 o drigolion; cyfran y boblogaeth o oedran gwaith â NVQ Lefel 4 neu gymhwyster uwch; a chyfran y busnesau sy'n gweithredu mewn sectorau seiliedig ar wybodaeth;
allbynnau: gwerth ychwanegol gros y pen; cynhyrchiant llafur; a chyfraddau cyflogaeth;
deilliannau: cyflog wythnosol gros; a chyfraddau diweithdra. I gael eglurhad llawn o'r fethodoleg gweler Huggins et al (2014).

**Tabl 1.8: Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth (Ion 2018-Rhag 2018)**

| Grŵp Galwedigaethol | TC (niferoedd) | TC (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| 1 Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion | 29,500 | 8.4 | 9.7 |
| 2 Galwedigaethau proffesiynol | 53,900 | 15.3 | 18.7 |
| 3 Proffesiynol a thechnegol cysylltiedig | 43,500 | 12.3 | 13.8 |
| 4 Gweinyddol ac ysgrifenyddol | 36,600 | 10.4 | 9.8 |
| 5 Galwedigaethau â chrefftau medrus | 44,000 | 12.5 | 11.6 |
| 6 Gofalu, hamdden a galwedigaethau gwasanaethau eraill | 40,500 | 11.5 | 9.6 |
| 7 Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid | 29,800 | 8.5 | 8.0 |
| 8 Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau | 35,300 | 10.0 | 7.3 |
| 9 Galwedigaethau elfennol | 39,200 | 11.1 | 10.9 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r boblogaeth, Arolwg y llafurlu
Nodiadau: Mae'r niferoedd a % ar gyfer y rhai sy'n 16+, mae % yn gyfran o'r holl bobl mewn cyflogaeth, oherwydd materion talgrynnu efallai na fydd cyfansymiau'n 100% union

1.33 Yn dilyn y dadansoddiad galwedigaethol uchod, mae tabl 1.9 yn dangos swyddi cyflogeion yn ôl sector diwydiannol. Mae dros 67% o'r cyflogeion yn ardal Tasglu'r Cymoedd mewn cyflogaeth lawn-amser, sy'n gymesur uwch nag ar gyfer Cymru gyfan. Dylid nodi pwysigrwydd gweithgynhyrchu yn ardal Tasglu'r Cymoedd, gyda 44,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector. Mae felly'n ysgogydd pwysig ar gyfer yr economi yn yr ardal. Ar ben hynny, mae mwy na 66,000 o bobl yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn cael eu cyflogi ym meysydd addysg, iechyd a gwaith cymdeithasol, gan amlygu rôl yr Economi Sylfaenol (creu a dosbarthu'r nwyddau a gwasanaethau sy'n cefnogi bywyd pob dydd, a ddefnyddir gan bawb ni waeth beth fo'u hincwm a'u statws) yn y rhanbarth.[13]

[13] Mae'r Economi Sylfaenol yn enw ar gyfer y gweithgareddau busnes hynny yr ydym yn eu defnyddio bob dydd. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r Economi Sylfaenol.

## Tabl 1.9: Dadansoddiad o swyddi cyflogeion (2017) yn ôl sector diwydiannol

| | TC (cyflogeion) | TC % | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm swyddi cyflogeion** | 246,000 | - | - |
| Llawn-amser | 165,000 | 67.1 | 65.3 |
| Rhan-amser | 81,000 | 32.9 | 34.7 |
| **Swyddi cyflogeion yn ôl diwydiant** | | | |
| Mwyngloddio a chwarela | 760 | 0.3 | 0.1 |
| Gweithgynhyrchu | 44,000 | 17.9 | 11.2 |
| Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | 790 | 0.3 | 0.6 |
| Gweithgareddau cyflenwi â dŵr; carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer | 3,725 | 1.5 | 1.0 |
| Adeiladu | 10,950 | 4.5 | 4.2 |
| Cyfanwerthu a masnach fanwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 34,000 | 13.8 | 14 |
| Cludo a storio | 8,650 | 3.5 | 3.3 |
| Gweithgareddau llety a gweini bwyd | 13,000 | 5.3 | 7.7 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 8,450 | 3.4 | 4.2 |
| Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 3,125 | 1.3 | 2.4 |
| Gweithgareddau eiddo tirol | 3,450 | 1.4 | 1.2 |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 9,850 | 4.0 | 5.3 |
| Gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chymorth | 14,300 | 5.8 | 6.8 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 15,250 | 6.2 | 7.1 |
| Addysg | 26,250 | 10.7 | 9.9 |
| Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 40,500 | 16.5 | 16.1 |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 5,400 | 2.2 | 2.7 |
| S : Gweithgareddau gwasanaethau eraill | 4,000 | 1.6 | 2.0 |

Ffynhonnell: Arolwg Cofrestr Busnesau a Chyflogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Nodiadau: Cyfran o gyfanswm y swyddi cyflogeion heb gynnwys amaethyddiaeth ar ffermydd yw %. Nid yw swyddi cyflogeion yn cynnwys yr hunangyflogedig

1.34 Mae Tabl 1.10 yn dangos bod y mwyafrif llethol o fusnesau yng Nghymru ac ardal Tasglu’r Cymoedd yn ficro-fentrau â llai na 10 o gyflogeion. Fodd bynnag, ceir dosbarthiad sydd â gogwydd cymedrol tuag at gwmnïau mawr yn ardal Tasglu’r Cymoedd, sydd yn ôl pob tebyg yn adlewyrchu pwysigrwydd gweithgynhyrchu i’r economi. Awgrymir hyn hefyd gan y data Unedau Lleol sy’n cyfrif gweithrediadau aml-leoliad yn unigol (h.y. lle mae cwmnïau mawr yn gweithredu ar fwy nag un safle).

**Tabl 1.10: Cyfrifon busnes (2018)**

| | TC (niferoedd) | TC (%) | Cymru (niferoedd) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|---|
| Mentrau | | | | |
| Micro (0 i 9) | 15,855 | 88.2 | 92,235 | 89.1 |
| Bach (10 i 49) | 1,745 | 9.7 | 9,550 | 9.2 |
| Canolig (50 i 249) | 310 | 1.7 | 1,430 | 1.4 |
| Mawr (250+) | 65 | 0.4 | 315 | 0.3 |
| Cyfanswm | 17,970 | 100.0 | 103,530 | 100 |
| Unedau Lleol | | | | |
| Micro (0 to 9) | 18,380 | 81.3 | 105,095 | 83.1 |
| Bach (10 i 49) | 3,400 | 15.0 | 17,665 | 14 |
| Canolig (50 i 249) | 725 | 3.2 | 3,210 | 2.5 |
| Mawr (250+) | 110 | 0.5 | 500 | 0.4 |
| Cyfanswm | 22,615 | 100.0 | 126,470 | 100 |

Ffynhonnell: Y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)
Nodyn: Cyfran o'r cyfanswm yw % (mentrau neu unedau lleol)

1.35 Mae Working Futures[14] yn darparu data ynghylch newid a ragwelir yn y farchnad lafur yn ôl sector yng Nghymru. Y sector â'r cynnydd mwyaf a ragwelir mewn cyflogaeth rhwng 2014 a 2024 yw cyfanwerthu a masnach fanwerthu, sydd â chynnydd a rhagamcanol o 19,700 o swyddi, sy'n golygu mai dyma fydd y sector mwyaf yn 2024. Hwn oedd yr ail sector mwyaf yn 2014, yn dilyn iechyd a gwaith cymdeithasol, y rhagwelir cynnydd ynddynt hefyd rhwng 2014 a 2024, ond i raddau llai (7,100). Ar sail cyfran, rhagfynegir y bydd y cynnydd mwyaf yn digwydd yn y sectorau cyllid ac yswiriant (17.9 y cant), dŵr a charthffosiaeth (16.5 y cant) a gwasanaethau proffesiynol (13.2 y cant). Fodd bynnag, mae'r twf ar y cyd ar gyfer y sectorau hyn (16,200) yn dal i fod yn llai nag a ragfynegir ar gyfer cyfanwerthu a masnach fanwerthu oherwydd eu maint cymharol lai.

[14] Working Futures 2014-2024 Papur cryno ar gyfer Cymru.
Mae'r rhagolygon hyn yn rhagddyddio refferendwm yr UE a chan hynny nid ydynt yn ystyried unrhyw drefniadau ymfudo ar ôl Brexit a all effeithio'n arbennig ar gyflenwad llafur ar gyfer galwedigaethau llai crefftus yng Nghymru. Ar gyfer trafodaeth fanwl am y materion hyn gweler Portes and Forte. 2019. Migration in Wales. Wales Centre for Public Policy.

1.36 Rhagfynegir gostyngiadau mewn cyflogaeth ar draws nifer o sectorau gan gynnwys amaethyddiaeth (-10,700), gweddill gweithgynhyrchu (-10,000) a pheirianneg (-5,100). Yn sgîl yr angen i gyflogi gweithwyr yn lle'r rhai sydd wedi gadael y farchnad lafur, bydd galw sylweddol o hyd o blith y sectorau hyn rhwng 2014 a 2024.

1.37 O ystyried y newidiadau rhagamcanol a ddisgrifir yma, mae cyfeirio'n ôl at strwythur sectoraidd presennol ardal Tasglu'r Cymoedd (tabl 1.9 uchod) yn codi pryderon amlwg mewn perthynas â chynaliadwyedd cyflogaeth ac ansawdd swyddi yn y rhanbarth yn y dyfodol – yn anad dim mewn perthynas â dirywiad y sector gweithgynhyrchu ac i'r gwrthwyneb y cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer twf mewn gwasanaethau cyllid a phroffesiynol. Fodd bynnag, mae twf rhagamcanol yr economi sylfaenol yn creu cyfle, yn amodol ar sgiliau priodol, cyllid ac ansawdd swyddi. Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru[15], yn amlinellu sut y gellir cyflawni hyn drwy ddarparu cymorth sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn, atgoffa cyflogwyr o'u cyfrifoldebau i uwchsgilio eu gweithwyr, ymateb i fylchau sgiliau presennol a'r rhai ragwelir a pharatoi ar gyfer newid radical yn y byd gwaith.

1.38 Mae Working Futures hefyd yn darparu data ynghylch newid rhagamcanol yn y farchnad lafur yn ôl galwedigaeth. Rhagfynegir y bydd y cyfnod rhwng 2014 a 2024 yn un o gynnydd mewn cyflogaeth a fydd yn seiliedig ar ehangu mewn galwedigaethau mwy crefftus yn y grwpiau rheoli, proffesiynol, a phroffesiynol a thechnegol cysylltiedig. Dim ond galwedigaethau gwasanaethau gwarchodol y rhagfynegir y byddant yn dirywio rhwng 2014 a 2024 o blith y grwpiau hynny. Mae'r grwpiau galwedigaethol hyn yn debygol o fod angen unigolion sy'n meddu ar gymwysterau lefel uwch. Mae'r cynnydd yn y tri grŵp galwedigaethol hwn (Prif grwpiau 1-3 yn Nosbarthiad Galwedigaethol Safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol) yn gyfystyr â pharhad tueddiadau mwy hirdymor, gan y rhagfynegir y bydd y grŵp hwn yn rhoi cyfrif am 40.5 y cant o gyflogaeth yng Nghymru yn 2024 o'i gymharu â 30.1 y cant ym 1994.

[15] Llywodraeth Cymru. 2019. Cynllun cyflogadwyedd.

1.39 Yn ogystal â galwedigaethau mwy crefftus, rhagfynegir cynnydd mawr mewn cyflogaeth ar gyfer y rhai mewn galwedigaethau gofalu a gwasanaethau personol. Gellir ystyried bod hyn yn adlewyrchu'r materion demograffig sy'n wynebu Cymru a'r DU ac mae'n dilyn twf cryf rhwng 2004 a 2014 ar gyfer yr alwedigaeth (sydd wedi codi o 97,800 yn 2004 i 123,300 yn 2014 ac y rhagfynegir y bydd yn codi ymhellach i 138,200 erbyn 2024).

1.40 Rhagfynegir mai galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid fydd yn profi'r cynnydd canrannol mwyaf o blith yr holl alwedigaethau – cynnydd o 20.5 y cant rhwng 2014 a 2024, gan godi o 24,400 i 29,400.

1.41 O ran galwedigaethau â lefel sgiliau ganolig, rhagfynegir dirywiad mawr ar gyfer galwedigaethau ysgrifenyddol a chysylltiedig, sef 30.9 y cant (colled net o 10,800). Rhagfynegir colledion o 12.7 y cant, 8.9 y cant ac 8.4 y cant ar gyfer crefftau amaethyddol medrus a chrefftau cysylltiedig; crefftau metel, trydanol ac electronig; a thecstilau, argraffu a chrefftau medrus eraill hefyd. Rhagfynegir colled net o ran swyddi yn y galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol, a chrefftau medrus (Prif grwpiau 4 a 5 yn Nosbarthiad Galwedigaethol Safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2010) hyd at 2024 hefyd.

1.42 Ar gyfer galwedigaethau llai crefftus, cymysg yw'r rhagfynegiadau ar gyfer twf. Fel a nodir uchod, rhagfynegir lefelau twf uchel ar gyfer galwedigaethau gofalu a gwasanaethau personol a galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid. Fodd bynnag, rhagfynegir colledion sylweddol ar gyfer gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau a galwedigaethau gwerthu.

1.43 Rhagfynegir y bydd gwahaniaethau *o fewn* y categorïau galwedigaeth ehangach yn digwydd hefyd. Er enghraifft, rhagfynegir na fydd yr alwedigaeth Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid ehangach (Prif Grŵp 7 yn Nosbarthiad Galwedigaethol Safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2010) yn profi rhyw lawer o newid, ond mae hyn yn celu'r ffaith y bydd 5,000 o swyddi'n cael eu colli o alwedigaethau gwerthu a swm cyfwerth o 5,000 o swyddi'n cael eu hennill mewn galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid.

1.44 Bydd ar bob galwedigaeth, hyd yn oed y rhai y rhagfynegir y byddant yn dirywio, angen pobl newydd i ddod i mewn i'r galwedigaethau hynny yn lle'r rhai sy'n gadael y farchnad lafur. Mae'r galw am gyflogeion newydd yn lle rhai sy'n gadael ar ei uchaf mewn galwedigaethau gofalu a gwasanaethau personol, galwedigaethau gweinyddol, a galwedigaethau gweinyddu a gwasanaethau elfennol sydd â galw rhagamcanol am ryw 50,000 o gyflogeion newydd yr un.

1.45 Gan adlewyrchu'r patrwm a geir o ran y newidiadau sectoraidd a ragwelir, ceir pryderon ar gyfer ardal Tasglu'r Cymoedd o ran rôl galwedigaethau â sgiliau canolig ac is ym meysydd gweithgynhyrchu a gweinyddu.


## 2. Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

2.1 Oni nodir yn wahanol, mae canfyddiadau yn yr adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar ganlyniadau o Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd. Lle mae testun mewn llythrennau italig mae hyn yn dynodi geiriad un o gwestiynau neu ymatebion yr arolwg. Mae'r mwyafrif o'r adran hon (is-adrannau 2.1 i 2.5) yn seiliedig ar y rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd, cyfanswm o 226 o ymatebwyr. Mae'r canfyddiadau wedi'u dadansoddi yn ôl oedran a rhywedd yr ymatebydd a hefyd pa un a yw'r ymatebydd yn gweithio'n llawn-amser ynteu'n rhan-amser a pha un a yw'r sefydliad y mae'n gweithio ynddo yn y sector preifat ynteu'r sector cyhoeddus. Yn sgîl maint y sampl nid oedd modd cynnwys ffactorau demograffig eraill. Ar ben hynny, mae'n werth nodi bod ymatebwyr i'r arolwg yn fwy tebygol o fod yn gyflogeion yn y sector cyhoeddus nag sy'n wir mewn realiti yn ardal y tasglu (51% yn yr arolwg o'i gymharu â 25% mewn gwirionedd). Gan hynny, lle mae canlyniadau rhwng y ddau grŵp o gyflogeion yn wahanol gall fod gogwyddiadau yn y canfyddiadau ar y cyfan gyda'r darlun gwirioneddol yn nes at gyfartaledd y sector preifat nag a welir yma.

### 2.1 Ansawdd cyflogaeth

2.2 Roedd bron i hanner (49%) y rhai a arolygwyd fel rhan o'r Arolwg Dinasyddion yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn gweithio ar y pryd gyda 43% mewn cyflogaeth â thâl a 6% yn hunangyflogedig. Y rhai a oedd wedi ymddeol (30%) yw'r grŵp mwyaf nesaf ac mae dosbarthiad llawn statws gwaith ymhlith ymatebwyr i'r arolwg i'w weld yn ffigur 2.1.


**Ffigur 2.1: Statws gwaith yr ymatebydd**




Sail: Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd – Yr holl ymatebwyr (609)

2.3 Mae tri chwarter y rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd yn gwneud hynny'n llawn-amser (a ddiffinnir fel 31 o oriau neu fwy) gyda'r gweddill yn gweithio'n rhan-amser. Roedd gweithwyr wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal rhwng y rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus (51%) a'r sector preifat (45%) gyda nifer fach (3%) yn gweithio yn y sector gwirfoddol / elusennau[16].

**Ffigur 2.2: Pa un a ydynt yn gweithio'n llawn-amser ynteu'n rhan-amser ac yn y sector cyhoeddus neu breifat**




2.4 Nod yr arolwg oedd deall i ba raddau yr oedd gweithwyr mewn swyddi teg, diogel a chynaliadwy. Gofynnwyd cwestiynau i ddeall pa mor ddiogel oedd pobl yn teimlo yn eu swyddi, eu hamgylchedd gwaith, y rheolaeth a'r dylanwad a oedd ganddynt ar eu swydd a'u mewnbwn i brosesau penderfynu.

2.5 Roedd y cwestiynau hyn wedi'u bwriadu i adlewyrchu rhai o'r diffiniadau o 'waith teg' a nodir gan y Comisiwn Gwaith Teg a'i ragflaenydd y Bwrdd Gwaith Teg. Mae'r diffiniadau hyn yn cynnwys[17]:

a. Gwobrwyo teg
b. Llais y cyflogai a chydgynrychiolaeth


---

[16] Mae'r rhaniad yn ein sampl o weithwyr cyhoeddus a phreifat rywfaint yn wahanol i'r cyfrannau gwirioneddol yn ardal Tasglu'r Cymoedd (25% cyhoeddus, 75% preifat). Ar nifer o faterion, nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng gweithwyr y sector cyhoeddus a phreifat ac felly ni fydd y bias hwn o ran y sampl yn effeithio ar y canfyddiadau cyffredinol. Lle ceir gwahaniaethau rhwng y ddau grŵp a lle gallai gogwyddiadau fod yn bresennol yn y canfyddiadau ar y cyfan, gall fod y darlun go iawn yn debycach i'r cyfartaledd ar gyfer y sector preifat nag a ddangosir yma. Mae enghreifftiau o achosion lle gallai hyn fod yn wir yn cynnwys: y gyfran sy'n cael cyrsiau hyfforddi wyneb yn wyneb (sy'n uwch ymhlith gweithwyr y sector cyhoeddus – para 2.31), y gyfran sy'n cael cynnig y cyfle i ddysgu Cymraeg yn y gweithle (sy'n uwch ymhlith gweithwyr y sector cyhoeddus – para 2.42), y pellter a deithir i'r gweithle (sy'n fyrrach ymhlith gweithwyr y sector cyhoeddus – para 2.45)
[17] Gwaith Teg Cymru, Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, Mawrth 2019

c. Sicrwydd a hyblygrwydd
d. Cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen
e. Amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol
f. Parchu a gwireddu hawliau cyfreithiol

2.6 Yn galonogol, mae’r mwyafrif llethol o weithwyr (93%) yn cytuno eu bod yn cael eu trin â pharch yn eu gweithle – mae 40% *yn cytuno’n gryf* a 53% *yn cytuno*. Mae dynion a menywod yn rhannu barn debyg ynglŷn â hyn gyda mwy na 9 ym mhob 10 yn cytuno eu bod yn *cael eu trin â pharch* (ffigur 2.3). Er bod y cyfrannau sy’n cytuno, o ran oedran, ychydig yn llai cyson (95% o bobl 16-44 oed yn cytuno, 88% o bobl 45+), nid yw’r gwahaniaeth hwn yn cael ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni ellir ei gymhwyso i’r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno â’r gosodiad ‘Rwy’n cael fy nhrin â pharch yn fy ngweithle’ (Yr holl weithwyr ac yn ôl rhywedd a chategori oedran y gweithiwr)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol (226), Dynion (105), Menywod (120), 16-44 (95), 45+ (131)

2.7 Roedd cytundeb eu bod yn *cael ei trin â pharch yn y gweithle* yn gyson ymhlith y rhai a oedd yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac ymhlith y rhai sy’n gweithio’n llawn-amser neu’n rhan-amser fel a ddangosir yn ffigur 2.4.


**Ffigur 2.4: Y ganran a oedd yn cytuno â'r gosodiad 'Rwy'n cael fy nhrin â pharch yn fy ngweithle' (Yr holl weithwyr ac yn ôl gweithwyr llawn-amser neu ran-amser ac yn ôl gweithwyr yn y sector cyhoeddus neu breifat)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol (226), Llawn-amser (165), Rhan-amser (61), Sector cyhoeddus (111), Sector preifat (107)

2.8 Fodd bynnag roedd agweddau eraill ar yr amgylchedd gwaith nad oedd barn pobl mor gadarnhaol amdanynt. Roedd bron i hanner (46%) y gweithwyr o'r farn eu bod yn *gweithio dan gryn dipyn o densiwn* ac roedd hyn yn fwy amlwg ymhlith y rhai dros 45 oed (roedd 54% yn cytuno o'i gymharu â 42% ymhlith y rhai 16-44 oed) a'r rhai a oedd yn gweithio'n llawn-amser (roedd 52% yn cytuno o'i gymharu â 30% ymhlith gweithwyr rhan-amser). Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gelli'r cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2. 5: Y ganran a oedd yn cytuno â'r gosodiad 'Rwy'n gweithio dan gryn dipyn o densiwn' (Yr holl weithwyr ac yn ôl rhywedd a chategori oedran y gweithiwr)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol (226), Llawn-amser (165), Rhan-amser (61), 16-44 (95), 45+ (131)

2.9 Ni chanfuwyd gwahaniaeth o ran cytundeb â'r gosodiad *Rwy'n gweithio dan gryn dipyn o densiwn* yn ôl rhywedd na pha un a oedd gweithwyr yn y sector cyhoeddus neu breifat.


2.10 Ar ben hynny, roedd traean (32%) yn cytuno y byddai eu cyflogwr *yn gallu newid eu horiau ar fyr rybudd* ac roedd 14% yn cytuno bod *newidiadau yn nifer yr oriau yr wyf yn eu gweithio o un wythnos i'r llall yn achosi anawsterau i mi*. Nid oedd y cyfrannau hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhywedd nac oedran y gweithiwr nac ymhlith y rhai a oedd yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu breifat a'r rhai a oedd yn gweithio'n llawn-amser neu'n rhan-amser.

2.11 Ymhlith y nifer fach a oedd yn cytuno bod *newidiadau yn nifer yr oriau yr wyf yn eu gweithio o un wythnos i'r llall yn achosi anawsterau i mi*, dim ond lleiafrif bach (2 allan o 30 o ymatebwyr) a ddywedodd eu bod yn gweithio mewn swydd lle mae eu cyflog yn amrywio o un wythnos i'r llall oherwydd y gwaith a gynigir iddynt. Mae hyn yn awgrymu, er gyda'r cafeat bod maint y sampl yn fach, i'r rhan fwyaf, nad yw anawsterau a wynebir oherwydd newidiadau i'r oriau y maent yn eu gweithio o un wythnos i'r llall yn gysylltiedig â newidiadau mewn cydnabyddiaeth ariannol ond yn hytrach ffactorau eraill a all gynnwys anawsterau ymarferol patrymau gwaith gwahanol.

2.12 O ran hyblygrwydd trefniadau gweithio, dywedodd tri chwarter (76%) y gweithwyr na fyddai'n rhy anodd cael awr neu ddwy o'r gwaith yn ystod oriau gwaith i ofalu am fater personol neu deuluol – 37% *ddim yn anodd o gwbl*, 39% *ddim yn rhy anodd*.

2.13 Roedd y canfyddiad hwn yn gymharol gyson ar draws gweithwyr o wahanol oedrannau a rhywedd. Roedd menywod yn llai tebygol na dynion i ddweud ei bod *ddim yn anodd o gwbl / ddim yn rhy anodd* (70% o'i gymharu ag 83% ar gyfer gweithwyr gwrywaidd). Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth yn cael ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni ellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.6: Anhawster trefnu awr neu ddwy o'r gwaith i ymdrin â mater personol (Yr holl weithwyr heb gynnwys y rhai sy'n hunangyflogedig ac yn ôl rhywedd a chategori oedran y gweithiwr)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol ac eithrio'r rhai sy'n hunangyflogedig (198), Dynion (88), Rhan-amser (109), 16-44 (86), 45+ (112)

2.14 Nid oedd anhawster trefnu awr neu ddwy o'r gwaith i ymdrin â mater personol yn amrywio'n sylweddol yn ôl pa un a oedd gweithwyr yn y sector cyhoeddus neu breifat neu pa un a oeddent yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan-amser.

2.15 Fodd bynnag, mae gan lawer llai o weithwyr reolaeth fwy helaeth dros eu horiau gwaith gyda lleiafrif (tua dwy ran o bump) yn cytuno â'r gosodiad *Rwy'n gallu penderfynu'r amser yr wyf yn dechrau ac yn gorffen gwaith*. Roedd y gyfran a oedd

yn cytuno â'r gosodiad hwn yn gyson yn ôl oedran a rhywedd y gweithiwr a hefyd yn ôl pa un a oeddent yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu breifat. Er bod 44% o weithwyr llawn-amser yn cytuno â'r gosodiad *Rwy'n gallu penderfynu'r amser yr wyf yn dechrau ac yn gorffen gwaith* o'i gymharu â 32% o weithwyr rhan-amser, nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni ellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.7: Y ganran a oedd yn cytuno â'r gosodiad 'Rwy'n gallu penderfynu'r amser yr wyf yn dechrau ac yn gorffen gwaith' (Yr holl weithwyr ac yn ôl gweithwyr llawn-amser neu ran-amser)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol (226), Llawn-amser (165), Rhan-amser (61),

2.16 Dywedodd tua thri chwarter (74%) y gweithwyr fod ganddynt naill ai *llawer iawn o ddewis* (25%) neu *rywfaint o ddewis* (49%) o ran y ffordd yr oeddent yn gwneud eu swydd. Roedd chwarter yn teimlo bod ganddynt *bron dim dewis* neu *ddim dewis o gwbl* – gweler ffigur 2.8

2.17 Mae gweithwyr dros 45 oed wedi'u pegynnu'n fwy na'r rhai dan 45 wrth ddisgrifio'r rheolaeth sydd ganddynt dros y ffordd y maent yn gwneud eu swydd. Roedd y rhai 45+ oed yn fwy tebygol o deimlo bod ganddynt *lawer iawn o ddewis* (30% o'i gymharu â 23% o'r rhai 16-44) ond hefyd yn fwy tebygol o gredu bod ganddynt *ddim dewis o gwbl* (14% o'i gymharu â 6%) – gweler ffigur 2.8. Caiff y gwahaniaeth hwn yn y patrwm ymateb ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly

gellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach. Yn yr un modd, mae barn menywod wedi'i phegynnu'n fwy na dynion ynglŷn â hyn ond ar yr achlysur hwn, nid yw'r gwahaniaeth yn y patrwm ymateb yn cael ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni ellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.8: Lefel y dewis dros y ffordd y mae eu swydd yn cael ei gwneud (%) (Yr holl weithwyr ac yn ôl rhywedd a chategori oedran y gweithiwr)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol (226), Dynion (105), Menywod (120), 16-44 (95), 45+ (131)

2.18 Er bod y rhai yn y sector preifat a'r rhai a oedd yn gweithio'n rhan-amser wedi dweud bod ganddynt lefelau ychydig yn uwch o ddiffyg dewis, nid yw'r gwahaniaeth yn cael ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni ellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

2.19 Cymysg oedd canfyddiadau am lais a chynrychiolaeth cyflogeion yn y gweithle. Ac eithrio'r rhai sy'n hunangyflogedig, roedd 43% o weithwyr yn meddwl y byddai ganddynt hwy'n bersonol rywfaint o lais pe bai penderfyniad yn cael ei wneud yn eu gweithle a fyddai'n newid y ffordd yr oeddent yn gwneud eu swydd. Nid oedd cyfanswm o 35% yn meddwl y byddai llais ganddynt gyda'r gweddill yn dweud ei bod yn dibynnu (21%) neu nad oeddent yn gwybod (1%). Nid oedd hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran na rhywedd y gweithiwr.

2.20 Roedd y rhai a oedd yn gweithio'n llawn-amser yn fwy tebygol o gredu y byddai ganddynt rywfaint o ddylanwad na'r rhai a oedd yn gweithio'n rhan-amser – 47% o'i gymharu â 30% yn y drefn honno. Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.9: Pa un a fyddai gan y gweithiwr unrhyw lais mewn penderfyniad a fyddai'n newid y ffordd y mae ei swydd yn cael ei gwneud (Yr holl weithwyr ac yn ôl gweithwyr llawn-amser neu ran-amser)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol nad ydynt yn hunangyflogedig (198), Llawn-amser (147), Rhan-amser (51)

2.21 Ymhlith y rhai sy'n teimlo y byddai ganddynt rywfaint o lais mewn penderfyniad ynglŷn â newid i'w swydd, roedd rhaniad cyfartal o ran maint y dylanwad hwn rhwng y rhai a oedd yn meddwl mai dim ond *ychydig o ddylanwad* fyddai ganddynt (49%) a'r rhai a oedd yn meddwl y byddai ganddynt *gryn dipyn* (33%) / *llawer iawn* (17%) o ddylanwad.

2.22 Mae tuag 1 ym mhob 4 gweithiwr (23%) yn ofni colli eu swydd a dod yn ddi-waith yn y 12 mis nesaf. Pan ofynnir i'r grŵp yma am y siawns y bydd hyn yn digwydd mewn gwirionedd, mae mwyafrif yn meddwl ei fod naill ai'n debygol (41%) neu fod siawns deg y bydd yn digwydd (33%).

**Ffigur 2.10: Y ganran sy'n ofni diweithdra yn y 12 mis nesaf a'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd**




*Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol (226)*

*Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol sy'n ofni diweithdra yn y 12 mis nesaf (50)*

2.23 Mae ofn bod yn ddi-waith yn y 12 mis nesaf i'w weld yr un mor amlwg ymhlith dynion (24%) a menywod (22%) ac ymhlith gweithwyr o grwpiau oedran gwahanol – 24% ymhlith pobl 16-44, 22% ymhlith y rhai 45+ oed.

2.24 Yn yr un modd, mae ofn diweithdra yn y 12 mis nesaf i'w weld yn weddol gyson ymhlith y rhai sy'n gweithio yn y sector preifat (22%) a'r sector cyhoeddus (21%) a'r rhai mewn swyddi llawn-amser (24%) neu ran-amser (21%).

## 2.3 Hyfforddiant a sgiliau

2.25 Mae Tabl 2.1 yn dangos cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n cyflawni lefelau amrywiol o gymwysterau NVQ. Daw'r data hwn o arolwg blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r boblogaeth ac mae'n dwyn cymhariaeth rhwng Cymru ac ardal Tasglu'r Cymoedd.

2.26 Mae un rhan o bump (20%) o boblogaeth ardal Tasglu'r Cymoedd yn meddu ar gymhwyster lefel gradd neu uwch. I'r gwrthwyneb mae 11% heb unrhyw gymwysterau. Ar bob lefel mae ffigwr cyrhaeddiad ardal Tasglu'r Cymoedd islaw ffigwr Cymru gyfan. Mae hyn yn codi pryderon mewn perthynas â rhagfynegiadau Working Futures 2014-2024 a nodir yn adran 1.4, yn anad dim gan bod hyn yn awgrymu mai dim ond 2% o'r llafurlu cyflogedig sy'n debygol o fod heb unrhyw gymwysterau ffurfiol erbyn 2024.

**Tabl 2.1: Cymwysterau NVQ (Ion 2018-Rhag 2018)**

| | TC (niferoedd) | TC (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|---|
| NVQ6 ac uwch | 96,100 | 20.3 | 27.5 |
| NVQ4 ac uwch | 139,300 | 28.6 | 35.4 |
| NVQ3 ac uwch | 233,300 | 47.9 | 55.1 |
| NVQ2 ac uwch | 335,200 | 68.8 | 74 |
| NVQ1 ac uwch | 398,000 | 81.7 | 84.9 |
| Cymwysterau eraill | 31,600 | 6.5 | 6.5 |
| Dim cymwysterau | 53,100 | 10.9 | 8.6 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth
Nodiadau: Mae niferoedd a % ar gyfer y rhai 16-64 oed, mae NVQ1 yn gyfwerth â TGAU (graddau D-G), mae NVQ6 yn gyfwerth â gradd Baglor[18]

[18] Ceir rhagor o fanylion am lefelau NVQ yma - https://www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean/list-of-qualification-levels

2.27 Mae'r ffigyrau a gyflwynir yn nhabl 2.2 (a gafwyd o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru) yn ymwneud â gweithgareddau dysgu trigolion ardal Tasglu'r Cymoedd mewn sefydliadau Addysg Bellach a thrwy ddysgu seiliedig ar waith. Byddent yn awgrymu achos sylweddol dros fod yn optimistaidd yn yr ystyr eu bod ill dau ymhell uwchlaw'r gyfran o boblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd sy'n byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd fel y'i diffinnir yma (tua 25%).

**Tabl 2.2: Dysgu gydol oes a dysgu seiliedig ar waith**


| | **TC (niferoedd)** | **Cymru (niferoedd)** | **TC fel % o gyfanswm Cymru** |
|---|---|---|---|
| Gweithgareddau dysgu mewn sefydliadau AB | 111,310 | 402,980 | 27.6 |
| Dysgwyr unigryw mewn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith | 12,225 | 41,735 | 29.3 |

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru (2015/16)
Nodiadau: Mae dysgu seiliedig ar waith yn cyfeirio at raglenni prentisiaeth

2.28 A dychwelyd i ganfyddiadau o Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd, rydym yn archwilio a yw gweithwyr yn yr ardal wedi cael hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf, defnyddioldeb hyn a pha un a yw gweithwyr yn teimlo, ar y cyfan, eu bod yn gallu defnyddio'r sgiliau, y profiad a'r galluoedd yn eu swydd.

2.29 Roedd tuag 8 ym mhob 10 gweithiwr wedi cael rhyw fath o hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf. Y dulliau darparu mwyaf poblogaidd oedd cwrdd hyfforddi wyneb yn wyneb (56% o'r holl weithwyr) a hyfforddiant/arweiniad yn y swydd (52%). Fodd bynnag, roedd traean wedi dilyn cwrs gohebol neu dros y rhyngrwyd (34%) neu wedi addysgu eu hunain trwy lyfr/llawlyfr/DVD/fideo (33%).

**Ffigur 2.11: Y ganran a gafodd bob math o hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol (226)

2.30 Roedd gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yr un mor debygol o fod wedi cael rhyw fath o hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf (81% ac 82% yn y drefn honno) ac mae'r un peth yn wir am weithwyr hŷn (45+) ac iau (16-44) – 82% a 79% yn y drefn honno.

2.31 Pa un a oedd person yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu breifat, nid oedd hynny'n newid eu tebygolrwydd o fod wedi cael hyfforddiant – roedd 82% o'r rhai a oedd yn gweithio yn y naill sector a'r llall wedi cael hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn gweithio yn y sector cyhoeddus yn fwy tebygol o fod wedi cael cwrs hyfforddi wyneb yn wyneb – 70% o'i gymharu â 42% yn y sector preifat.

2.32 Roedd bron pawb (95%) a oedd wedi cael hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf yn teimlo bod yr hyn a gawsant yn ddigonol i aros gyfuwch â'r sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni eu swydd (Ffigur 2.12).


**Ffigur 2.12: Y ganran sy'n credu bod yr hyfforddiant yn ddigonol er mwyn aros gyfuwch â'r sgiliau sy'n ofynnol i gyflawni eu swydd.**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol (226)

2.33 Dywedodd y mwyafrif (81%) o weithwyr eu bod yn gallu defnyddio eu profiad, sgiliau a galluoedd blaenorol bron i gyd (42%) neu gryn dipyn ohonynt (39%) yn eu swydd bresennol. Mae'r canfyddiadau'n debyg ar gyfer hyn ymhlith dynion a menywod, categorïau oedran ac ar draws y rhai sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Roedd gweithwyr llawn-amser (86%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gallu defnyddio'u profiad, sgiliau a galluoedd blaenorol na gweithwyr rhan-amser (65%).


**Ffigur 2.13: I ba raddau y mae gweithwyr yn gallu defnyddio sgiliau, profiad a galluoedd blaenorol yn eu swydd bresennol (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol (226), Llawn-amser (165), Rhan-amser (61)

2.34 Roedd y rhai sy'n teimlo mai dim ond ychydig neu ychydig iawn o'u profiad, sgiliau a galluoedd blaenorol y maent yn gallu eu defnyddio yn eu swydd bresennol, sef tuag un rhan o bump (19%) o'r holl weithwyr, fwyaf tebygol o ddweud mai'r rheswm dros hyn oedd am bod y rôl y maent yn ei chyflawni yn awr yn wahanol i'w rôl flaenorol/rolau blaenorol fel a ddangosir yn Ffigur 2.14.

**Ffigur 2.14: Rhesymau pam mai dim ond ychydig neu ychydig iawn o'u profiad, sgiliau a galluoedd blaenorol y mae gweithwyr yn gallu eu defnyddio yn eu swydd bresennol (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Y rhai sy'n teimlo mai dim ond ychydig neu ychydig iawn o'u profiad, sgiliau a galluoedd blaenorol y maent yn gallu eu defnyddio yn eu swydd bresennol (55)

2.35 Ymhlith gweithwyr nad ydynt wedi cael hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf (un rhan o bump o'r holl weithwyr) nid oedd y rhan fwyaf yn credu bod hyfforddiant yn angenrheidiol iddynt – roedd 73% yn cytuno â'r gosodiad *Nid oedd angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol arnaf ar gyfer fy swydd bresennol.*


## 2.4 Cymraeg yn y gweithle

2.36 Dywedodd cyfanswm o 13% o'r rhai a oedd yn gweithio ar hyn o bryd eu bod yn medru Cymraeg a dywedodd 19% arall eu bod yn medru rhywfaint o Gymraeg.

2.37 Mae gweddill yr adran hon, sef 2.4, yn seiliedig ar y 32% o weithwyr presennol sy'n dweud eu bod yn medru rhywfaint o Gymraeg; mae hyn yn cyfateb i 60 o ymatebwyr yn unig. Ar ben hynny, mae ymchwil flaenorol gan ddefnyddio ACC wedi dangos y bydd y rhai sy'n siaradwyr Cymraeg mwy rhugl yn tueddu i ddefnyddio iaith yn wahanol i'r rhai sy'n medru rhywfaint o Gymraeg[19]. Felly dylid arfer rhywfaint o bwyll wrth ddehongli canlyniadau yn yr adran hon. I gael rhagor o wybodaeth am Gymraeg a'r gweithle dylid cyfeirio at fwletin ACC[20].

2.38 Mae canlyniadau o Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd yn awgrymu, ymhlith y rhai a oedd yn medru Cymraeg / a oedd yn medru rhywfaint o Gymraeg, bod mwyafrif yn dweud bod ganddynt gydweithwyr Cymraeg (68%). O'r cydweithwyr Cymraeg hynny, sy'n cyfateb i 41 o ymatebwyr, dywedodd bron i hanner eu bod yn siarad Cymraeg gyda'r cydweithwyr hyn.

**Ffigur 2.15: Pa un a oes gan weithwyr gydweithwyr Cymraeg (%)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol sy'n medru Cymraeg (60)

---

[19] Ceir rhagor o wybodaeth am y modd y mae siarad Cymraeg yn rhyngweithio â gwaith a hyfforddiant ym mwletin Y Gymraeg yn y gweithle (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2018 – Mawrth 2019.

2.39 Roedd gan tua hanner (51%) y rhai a oedd yn medru Cymraeg / medru rhywfaint o Gymraeg swydd a oedd yn cynnwys siarad gyda phobl y tu allan i'w sefydliad (e.e. cleientiaid, cyflenwyr). Mae hyn yn cynnwys 35% y mae o leiaf un o'u cysylltiadau'n medru Cymraeg ac 16% nad yw unrhyw un o'u cysylltiadau'n siarad Cymraeg (neu lle mae hynny'n anhysbys).

**Ffigur 2.16: Pa un a yw gweithwyr yn siarad gydag unrhyw un y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd (%)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol sy'n medru Cymraeg (60)

2.40 O'r rhai sydd â chysylltiadau Cymraeg y tu allan i'w sefydliad (22 o ymatebwyr) mae tua thri chwarter yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rai ohonynt.

2.41 Mae Ffigur 2.17 isod yn crynhoi cyfleoedd i siarad Cymraeg ymhlith gweithwyr presennol sy'n medru o leiaf rywfaint o Gymraeg. Ar y cyfan nid oes gan 18% o'r grŵp hwn unrhyw gydweithwyr na chleientiaid / cyflenwyr / cysylltiadau eraill Cymraeg y tu allan i'w sefydliad. Mae'r gweddill wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai sydd â chysylltiadau o'r fath ond nad ydynt yn siarad Cymraeg gyda hwy (40%) ac sy'n cael y cyfle i siarad Cymraeg gyda naill ai cydweithwyr neu gleientiaid / cyflenwyr / cysylltiadau eraill y tu allan i'w sefydliad (41%).

**Ffigur 2.17: Crynodeb o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn y gwaith ymhlith siaradwyr Cymraeg (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol sy'n medru Cymraeg (60)


2.42 Gofynnwyd i'r holl weithwyr presennol ac eithrio'r rhai a oedd yn hunangyflogedig a oedd eu sefydliad yn cynnig unrhyw gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg. Dywedodd ychydig dros draean o'r gweithwyr presennol (36%) fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd o'r fath. Roedd cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn llawer mwy tebygol mewn rolau yn y sector cyhoeddus – cynigiwyd y cyfle i 58% o'r rhai a oedd yn gweithio yn y sector hwn ddysgu Cymraeg o'i gymharu â dim ond 10% yn y sector preifat. Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

2.43 Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o gael cynnig y cyfle i ddysgu Cymraeg gan eu cyflogwr – 46% o'i gymharu â 23% ymhlith dynion. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod menywod y cyfwelwyd â hwy fel rhan o Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd yn fwy tebygol o fod yn gweithio yn y sector cyhoeddus na dynion.

## 2.5 Teithio i'r gwaith

2.44 Mae saith ym mhob deg (70%) o weithwyr yn teithio i'r un gweithle bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn teithio i ychydig o weithleoedd gwahanol (19%) ond mae 1 ym mhob 10 naill ai heb weithle penodol (7%) neu'n gweithio gartref (3%).


**Ffigur 2.18: Math o weithle y mae gweithwyr yn teithio iddo (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol (226)

2.45 O'r rhai sy'n teithio i weithleoedd, mae 8 ym mhob 10 yn teithio o leiaf 3 milltir gan gynnwys 38% sy'n teithio mwy na 15 milltir. Roedd y rhai sy'n gweithio mewn rolau yn y sector cyhoeddus a'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser yn fwy tebygol o deithio pellter byrrach i'r gwaith na'u cymheiriaid llawn amser ac yn y sector preifat fel a ddangosir yn ffigur 2.19. Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.19: Pellter a deithir i'r gweithle \ gweithle yr ymwelir ag ef fwyaf aml – y ganran sy'n teithio gwahanol bellteroedd (Yr holl weithwyr ac yn ôl gweithwyr llawn-amser neu ran-amser ac yn ôl gweithwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol sy'n teithio i weithleoedd (199), Llawn-amser (145), Rhan-amser (54), Sector cyhoeddus (104), Sector preifat (88)

2.46 Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o deithio pellteroedd byrrach i'w gweithle, sy'n adlewyrchiad o'r ffaith eu bod hefyd yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n rhan-amser ac yn y sector cyhoeddus.

2.47 O ran yr amser a gymerir i gyrraedd eu gweithle, 36 munud oedd yr amser cyfartalog ar y cyfan. Mae'r cyfartaledd hwn yn cynnwys 42% sy'n teithio am 20 munud neu lai, 29% sy'n teithio rhwng 21 a 40 munud a 27% sy'n teithio dros 41 munud i gyrraedd eu gweithle.

2.48 Fel a ddangosir yn Ffigur 2.20, mae tua hanner (51%) y gweithwyr presennol yn gweithio yn yr un awdurdod lleol ag y maent yn byw ynddo ac mae 17% arall yn gweithio mewn awdurdod lleol sy'n gyfan gwbl (13%) neu'n rhannol (4%) yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Mae hyn yn gadael 3 ym mhob 10 (31%) o weithwyr sy'n teithio y tu allan i ardal Tasglu'r Cymoedd i gyrraedd eu prif weithle, a Chaerdydd yw'r cyrchfan mwyaf poblogaidd yn hyn o beth.

**Ffigur 2.20: Pa un a yw gweithwyr yn byw ac yn gweithio yn yr un awdurdod lleol (%)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol (226)

2.49 Caiff bodlonrwydd ag amser a chost siwrneiau ei nodi yn Ffigur 2.21. Gofynnwyd i ymatebwyr farcio eu bodlonrwydd o 0 i 10 gyda 0 yn cyfateb i ddim o gwbl a 10 yn cyfateb i yn gyfan gwbl. Y sgôr cyfartalog a roddwyd i fodlonrwydd ar yr amser y mae'n ei gymryd oedd 7.2 ac mae hyn yn cynnwys chwarter (25%) yr ymatebwyr a roddodd sgôr o 5 neu lai i hyn.

2.50 Mae bodlonrwydd ar gost siwrneiau rywfaint yn is nag ar amser siwrneiau gyda sgôr cyfartalog o 6.6 gan gynnwys 38% a roddodd sgôr o 5 neu lai i hyn.


**Ffigur 2.21: Bodlonrwydd (marc allan o 10) ar amser a chost siwrneiau i'r gweithle – canran a roddodd y gwahanol sgoriau a'r sgôr cymedrig**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol sy'n teithio i weithleoedd (199)

2.51 Fel y gellid disgwyl o bosibl, mae bodlonrwydd ar amser a chost siwrneiau'n gysylltiedig â'r pellter a deithir a'r amser a gymerir. Mae Ffigur 2.22 yn dangos bod lefelau bodlonrwydd cyfartalog ar amser siwrneiau (sgôr allan o 10) ar gyfer y rhai sy'n teithio am 3 milltir neu lai bron ddwywaith yr hyn ydyw ar gyfer y rhai sy'n teithio am 15 milltir neu fwy (sgôr cyfartalog o 9.6 o'i gymharu â 5.4). Mae patrwm y canlyniadau ar gyfer bodlonrwydd ar gost siwrneiau'n debyg.

**Ffigur 2.22: Bodlonrwydd (sgôr cymedrig allan o 10) ar amser siwrneiau i'r gweithle a chost siwrneiau i'r gweithle**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol sy'n teithio i weithleoedd (199)

2.52 Ymddengys fod tua thraean o'r gweithwyr ar y pen eithaf o ran y pellter y maent yn barod i'w deithio i'r gwaith a'r costau y maent yn barod i'w talu. Roedd cyfanswm o 35% o weithwyr yn cytuno â'r gosodiad *Fyddwn i ddim yn barod i deithio'n bellach nag yr wyf yn ei deithio ar hyn o bryd i'm gweithle* ac roedd 32% yn cytuno â'r gosodiad *mae cost teithio'n fy atal rhag chwilio am swyddi sy'n bellach o'm cartref*.

2.53 Mae'r mwyafrif llethol o'r rhai sy'n teithio i weithleoedd yn defnyddio car neu fan (85%) fel eu prif ddull cludiant. Dim ond 1 ymhob 10 o weithwyr sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus fel eu prif ddull ar gyfer teithio i'r gwaith gyda 5% yn defnyddio'r bws a 5% yn defnyddio'r trên. Ceir manylion llawn yn ffigur 2.23.

**Ffigur 2.23: Prif ddull cludiant ar gyfer teithio i'r gweithle (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr presennol (226)

2.54 Gofynnwyd i'r rhai nad oeddent yn defnyddio cludiant cyhoeddus at ddibenion gwaith pam nad oeddent yn gwneud ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Nhabl 2.3. Roedd y gweithwyr hyn yn cyfeirio gan amlaf at faterion a oedd yn ymwneud â hwylustod a hyblygrwydd defnyddio cludiant cyhoeddus – dim llwybr uniongyrchol (55%), mae'n cymryd gormod o amser (50%), ddim yn ddigon mynych (44%) a ddim yn gydgysylltiedig (38%). Y tu hwn i hyn, cost (37%) a dibynadwyedd (32%) oedd y prif ystyriaethau eraill ar gyfer peidio â defnyddio cludiant cyhoeddus.

**Tabl 2.3: Rhesymau dros beidio â defnyddio cludiant cyhoeddus i deithio i'r gweithle – y ganran a roddodd bob ateb**


| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Dim llwybr uniongyrchol | 55 |
| Mae'n cymryd gormod o amser | 50 |
| Ddim yn ddigon mynych / yn rhedeg ar yr amser anghywir | 44 |
| Nid yw gwasanaethau bysiau a/neu drenau'n gydgysylltiedig | 38 |
| Rhy ddrud | 37 |
| Ddim yn ddigon dibynadwy | 32 |
| Rhy bell i'r orsaf fysiau / orsaf drenau | 25 |
| Anodd canfod a yw'n rhedeg ar amser | 24 |
| Methu â chael sedd / gorlawn | 19 |
| Ddim yn ddigon hygyrch (e.e. i gadeiriau olwyn, pramiau) | 19 |
| Anghyfforddus | 15 |
| Ddim yn ddiogel | 8 |
| Dim o'r rhain | 11 |

Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Gweithwyr sy'n teithio i'w gweithle ond nad ydynt yn defnyddio cludiant cyhoeddus (185)  (185)
(a) Mae cyfanswm y tabl yn fwy na 100 gan bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb

## 2.6 Cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth

2.55 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i'r arolwg am eu bodlonrwydd ar nifer ac ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth a oedd ar gael yn yr ardal y maent yn byw ynddi. Ar y cyfan, roedd anfodlonrwydd ar *nifer* y cyfleoedd cyflogaeth a oedd ar gael ddwywaith cymaint â lefel y bodlonrwydd (48% yn anfodlon o'i gymharu â 24% yn fodlon). Roedd y canfyddiadau'n debyg wrth ystyried *ansawdd* y cyfleoedd hyn fel a ddangosir yn Ffigur 2.24.


**Ffigur 2.24: Bodlonrwydd ar nifer ac ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth a oedd ar gael (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609)

2.56 Roedd canfyddiadau am nifer y cyfleoedd cyflogaeth a oedd ar gael yn yr ardal yn llai ffafriol ymhlith y rhai nad ydynt yn gweithio ar y pryd o'i gymharu â'r rhai a oedd yn gweithio. Dim ond 18% o'r rhai nad oeddent yn gweithio oedd yn fodlon ar nifer y cyfleoedd a oedd ar gael o'i gymharu â 31% o weithwyr. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer ansawdd y cyfleoedd gyda 18% o'r rhai nad oeddent yn gweithio'n fodlon o'i gymharu â 27% o weithwyr a oedd yn teimlo fel hyn. Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.25: Bodlonrwydd ar nifer ac ansawdd y cyfleodd cyflogaeth a oedd ar gael (%) (yn ôl gweithwyr a'r rhai nad oeddent yn gweithio)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl weithwyr presennol (226), yr holl ria nad oeddent yn gweithio ar y pryd (383)

2.57 Roedd y mwyafrif o'r rhai nad oeddent yn gweithio yn ein sampl wedi ymddeol ac felly mae'n dilyn na fyddai'r rhan fwyaf o'r rhai nad oeddent yn gweithio'n hoffi cael swydd yn y dyfodol (50%) neu nad ydynt yn gallu cymryd un (19%).

2.58 O'r rhai a hoffai gael swydd (30% o'r rhai nad oeddent yn gweithio), byddai 12% yn hoffi un yn awr / cyn gynted â phosibl, 5% o fewn y flwyddyn nesaf a 13% ar ryw adeg yn y dyfodol.


**Ffigur 2.26: Pa un a hoffai'r rhai nad oeddent yn gweithio gael swydd yn y dyfodol (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Y rhai nad oeddent yn gweithio (383)

2.59 Gofynnwyd i’r rhai a hoffai gael swydd yn y dyfodol pa mor bell fyddent yn fodlon teithio i’r gwaith. Caiff eu hymatebion eu dangos yn Ffigur 2.27 a’u cymharu â pha mor bell mae gweithwyr yn teithio ar hyn o bryd. Mae canlyniadau rhwng y ddau grŵp yn debyg gan awgrymu nad yw disgwyliadau’r grŵp nad oeddent yn gweithio’n annhebyg i’r hyn y mae gweithwyr yn ei brofi mewn gwirionedd. Y cafeat i’r canfyddiadau hyn ac yn wir unrhyw ganfyddiadau sy’n archwilio’r grŵp nad oeddent yn gweithio a hoffai gael swydd yn y dyfodol yw mai dim ond 61 o ymatebwyr ydynt ac felly y dylid arfer rhywfaint o bwyll wrth ddehongli canfyddiadau ymhlith y grŵp hwn.


**Ffigur 2.27: Pellter yr oeddent yn barod i’w deithio (y rhai nad oeddent yn gweithio) o’i gymharu a’r pellter a oedd yn cael ei deithio (gweithwyr presennol) – y ganran a oedd yn barod i deithio / a oedd yn teithio pob pellter**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Y rhai nad oeddent yn gweithio ar y pryd ond a hoffai gael swydd yn y dyfodol (61), Gweithwyr presennol sy’n teithio i weithleoedd (199)

2.60 Caiff yr amser siwrne hwyaf y mae’r rhai a hoffai gael swydd yn y dyfodol yn barod i’w deithio i’r gwaith ei ddangos yn Ffigur 2.28. Caiff hyn ei gymharu eto ag amser siwrneiau gweithwyr presennol. Mae’r rhai a hoffai gael swydd yn y dyfodol, ar gyfartaledd, yn barod i dreulio mwy o amser yn teithio i’r gwaith nag y mae’r rhai sydd mewn gwaith yn ei deithio ar hyn o bryd. Gan hynny, nid yw’n ymddangos y byddai parodrwydd i dreulio amser yn teithio ymhlith y rhai yr oedd arnynt eisiau swydd yn y dyfodol yn gweithredu fel rhwystr i ddod o hyd i waith at ei gilydd.

**Ffigur 2.28: Amser yr oeddent yn barod i'w dreulio'n teithio (y rhai nad oeddent yn gweithio) o'i gymharu â'r amser yr oeddent yn teithio (gweithwyr presennol) – y ganran a oedd yn barod i deithio / a oedd yn teithio am bob cyfnod o amser**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Y rhai nad oeddent yn gweithio ar y pryd ond a hoffai gael swydd yn y dyfodol (61), Gweithwyr presennol sy'n teithio i weithleoedd (199),

2.61 Cymysg yw'r farn ynglŷn â thebygolrwydd dod o hyd i gyflogaeth. Mae tua hanner (52%) y rhai a hoffai gael swydd yn y dyfodol yn credu ei bod yn debygol y byddant yn dod o hyd i yn sy'n cyfateb i'w profiad, sgiliau a galluoedd – mae 18% yn meddwl ei bod yn *debygol iawn* a 34% yn meddwl ei bod yn *weddol debygol* y bydd hyn yn digwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn meddwl ei bod yn annhebygol (43%) ac mae 5% yn ansicr.

2.62 Pan holwyd ymhellach ynghylch tebygolrwydd dod o hyd i swydd a oedd ar lefel is na'u profiad, sgiliau a galluoedd, roedd y farn yn ddigyfnewid i raddau helaeth. Eto, roedd tua hanner (53%) yn meddwl ei bod yn debygol er bod rhaniad mwy cyfartal o ran y rhai a oedd yn meddwl ei bod yn *debygol iawn* (26%) neu'n *weddol debygol* (27%) fel a ddangosir yn Ffigur 2.29.


**Ffigur 2.29: Tebygolrwydd o ddod o hyd i swydd sy'n cyfateb i'r profiad, sgiliau a gallu o'i gymharu â dod o hyd i swydd ar lefel is na'r profiad, sgiliau a gallu (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Y rhai nad oeddent yn gweithio ar y pryd ond a hoffai gael swydd yn y dyfodol (61)


2.63 Gofynnwyd i'r rhai a hoffai gael swydd yn y dyfodol i ba raddau yr oeddent yn cytuno â nifer o osodiadau ynglŷn â rhwystrau i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth posibl. Gan bod rhai gosodiadau'n negyddol a rhai'n gadarnhaol, mae'r rhain wedi cael eu rhannu'n ddwy siart isod – ffigur 2.30 (gosodiadau negyddol), ffigur 2.31 (gosodiadau cadarnhaol). Caiff y pwynt ar y raddfa sy'n cynrychioli'r rhai sydd o'r farn bod pob mater yn rhwystr ei amlygu â llinell goch.

**Ffigur 2.30: Y ganran a oedd yn cytuno â gosodiadau ynglŷn â chael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth: gosodiadau negyddol**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Y rhai nad oeddent yn gweithio ar y pryd ond a hoffai gael swydd yn y dyfodol (61)

**Ffigur 2.31: Y ganran a oedd yn cytuno â gosodiadau ynglŷn â chael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth: gosodiadau cadarnhaol**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Y rhai nad oeddent yn gweithio ar y pryd ond a hoffai gael swydd yn y dyfodol (61)

2.64 Ar bob mater, roedd barn gymysg i raddau llai neu fwy. Fodd bynnag roedd materion cludiant a theithio ynghyd ag argaeledd cyfleoedd addas yn cael eu hystyried yn rhwystrau mwy i gyflogaeth na chael mynediad at gymorth neu hyfforddiant i ddarparu'r sgiliau angenrheidiol.

2.65 Yn gynharach yn yr adran hon (Ffigur 2.28, para 2.60) canfuom nad oedd parodrwydd i dreulio amser yn teithio i'w weld fel pe bai'n rhwystr i ddod o hyd i waith. Fodd bynnag, mae'r ymatebion yn Ffigur 2.30 yn dangos bod dros hanner (58%) y rhai a hoffai gael swydd yn y dyfodol yn cytuno bod materion cludiant yn ei gwneud yn anos o lawer dod o hyd i swydd ac, yn yr un modd, roedd 54% yn cytuno nad oes swyddi i rywun fel fi o fewn pellter teithio rhesymol. Mae hyn yn awgrymu efallai er bod parodrwydd i deithio, y gall fod anawsterau ymarferol o ran sicrhau cludiant priodol a chanfyddiad y gall cyfleoedd cyflogaeth fod yn gyfyngedig hyd yn oed os ydynt yn teithio.

2.66 Mewn cyferbyniad, dim ond tuag un rhan o bump (22%) oedd yn meddwl ei bod yn *anodd dod o hyd i gyrsiau neu hyfforddiant yn yr ardal hon i ddarparu'r sgiliau y mae eu hangen arnaf i gael swydd* ac roedd 56% yn anghytuno'n frwd â hyn. O ran bod *llawer o gymorth ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i swydd*, roedd y farn yn fwy cymysg – roedd 28% yn cytuno bod ond roedd cyfran debyg yn anghytuno (32%) ac roedd 40% yn ansicr (wedi ymateb trwy ddweud *ddim yn cytuno nac yn anghytuno* neu *ddim yn gwybod*).

# 3. Gwell gwasanaethau cyhoeddus


## 3.1 Gwasanaethau awdurdodau lleol yn gyffredinol

3.1 Cyn archwilio gwasanaethau unigol, bydd yr adran hon yn dechrau â chanfyddiadau ymatebwyr wrth ystyried i ba raddau y maent yn gallu cael mynediad at wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus lleol a dylanwadu ar y broses benderfynu. Mae data yn Ffigur 3.1 yn seiliedig ar ymatebwyr i Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd ond mae'n cynrychioli eu hatebion i gwestiynau a ofynnwyd yn ACC 2017-18.

3.2 Y canfyddiad ar y cyfan yw bod ymatebwyr yn teimlo ar y cyfan eu bod yn gallu cael mynediad at wybodaeth am wasanaethau lleol a ddarperir ond ychydig sy'n teimlo'u bod yn gallu cael dylanwad ar y broses benderfynu.

3.3 Mae tua thri chwarter yr ymatebwyr yn cytuno eu bod *yn gwybod sut i ganfod pa wasanaethau y mae fy awdurdod lleol yn eu darparu* (76%) a'u bod yn *gallu cael mynediad at wybodaeth yn y ffordd yr hoffent* (72%). Fodd bynnag, dim ond 14% sy'n credu bod ganddynt gyfle i gyfranogi mewn prosesau penderfynu ynghylch rhedeg gwasanaethau'r awdurdod lleol ac mae llai byth yn credu bod yr awdurdod *yn gofyn i bobl leol am eu barn cyn pennu ei gyllideb* (11%).

**Ffigur 3.1: Y ganran a oedd yn cytuno â gosodiadau am wasanaethau awdurdodau lleol**




Sail: ACC 2017-2018 – Ymatebwyr i arolwg TC a atebodd y cwestiwn hwn yn ACC (609)


## 3.2 Gwasanaethau iechyd

### 3.2.1 Gwasanaethau meddygon teulu

3.4 Mae bodlonrwydd ar *gael apwyntiad mewn meddygfa deulu sy'n gyfleus i mi* yn rhanedig. Er bod 44% yn fodlon ar hyn gan gynnwys 19% a oedd yn *fodlon iawn*, roedd cyfran ychydig yn uwch yn anfodlon (50%) gan gynnwys traean (33%) a oedd yn *anfodlon iawn* ar hyn.

3.5 O'r tri phrif fwrdd iechyd a gynrychiolir yn ardal Tasglu'r Cymoedd – Abertawe Bro Morgannwg[20], Cwm Taf ac Aneurin Bevan, mae bodlonrwydd ar gael amser apwyntiad ar ei isaf ymhlith y rhai sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf (35% o'i gymharu â 48% yn ardal Aneurin Bevan a 51% yn ardal Abertawe Bro Morgannwg).

**Ffigur 3.2: Bodlonrwydd ar gael apwyntiad mewn meddygfa deulu sy'n gyfleus i mi (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl y rhai sy'n byw yn ardaloedd gwahanol fyrddau iechyd)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (108) y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf (187), y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (301)

[20] Ar 1 Ebrill 2019, newidiodd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ei enw i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac fe newidiodd ei ffin hefyd – bellach nid yw'n cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn rhan o Fwrdd Iechyd Cwm Taf. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn, yn seiliedig ar fyrddau iechyd, yn defnyddio'r ffiniau blaenorol cyn mis Ebrill 2019.

3.6 I ddeall rhai o'r rhesymau sy'n gysylltiedig ag anfodlonrwydd ar amseroedd apwyntiadau meddygon teulu, rydym yn troi at ddata ACC 2017-2018. Cyfeiriodd ymatebion i'r Arolwg Dinasyddion a gymerodd ran yn yr arolwg hwn at yr amser yr oedd angen i chi aros am apwyntiad – *arhosiad hir am apwyntiad* (55% o'r rhai a oedd yn anfodlon ar amseroedd apwyntiadau), *apwyntiadau ddim ar gael ar yr un diwrnod* (37%) – neu fe gyfeirion nhw at anawsterau o ran sicrhau apwyntiad yn y lle cyntaf – *anhawster mynd drwodd ar y ffôn i wneud apwyntiad (50%), angen gwneud galwad yn gynnar yn y bore i gael apwyntiad* (44%).

**Tabl 3.1: Rhesymau dros anfodlonrwydd ar amseroedd apwyntiadau meddygon teulu (%)**


| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Arhosiad hir am apwyntiad | 55 |
| Anhawster mynd drwodd ar y ffôn i wneud apwyntiad | 50 |
| Angen gwneud galwad yn gynnar yn y bore i gael apwyntiad | 44 |
| Apwyntiadau ddim ar gael ar yr un diwrnod | 37 |
| Apwyntiadau ddim ar gael ar amseroedd cyfleus | 26 |
| Yn methu â threfnu apwyntiad â'u dewis feddyg teulu | 25 |
| Staff y dderbynfa'n ei gwneud yn anodd | 21 |
| Yn methu â threfnu apwyntiad yn ddigon pell ymlaen llaw | 18 |

Sail: ACC 2017-2018 – Ymatebwyr i Arolwg Dinasyddion TC a oedd yn anfodlon ar rwyddineb cael amser apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu
(a) Mae cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb

3.7 Er bod cael mynediad at apwyntiadau cyfleus yn gallu bod yn bryder i rai, ymddengys fod cael mynediad ffisegol at y meddyg teulu'n llai o broblem. Dywedodd bron i 9 ymhob 10 (88%) eu bod yn fodlon ar rwyddineb teithio i'w meddygfa deulu gan gynnwys 56% sy'n *fodlon iawn*. Dywedodd cyfanswm o 8% eu bod yn anfodlon ar hyn.

3.8 Ar draws pob un o'r tri bwrdd iechyd (Ffigur 3.3), roedd anfodlonrwydd cyfyngedig ar rwyddineb teithio i'r feddygfa deulu. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf yn llai tebygol o ddweud eu bod yn *fodlon iawn* ar hyn (46% o'i gymharu â 60% yn y ddau fwrdd iechyd arall). Cafodd y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 3.3: Bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i feddygfa deulu (%) (Yr holl ymatebwyr a'r rhai a oedd yn byw yn ardaloedd gwahanol fyrddau iechyd)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (108) y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf (187), y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (301)

3.9 Er bod o leiaf 8 ymhob 10 o bobl yn holl isgrwpiau'r boblogaeth yn fodlon ar rwyddineb teithio i feddygfa deulu, roedd cryfder y farn hon yn amrywio ychydig. Roedd menywod, y rhai dros 65 oed a'r rhai ag afiechyd cyfyngol neu anabledd yn llai tebygol o fod yn fodlon a chafodd y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach (Ffigur 3.4)


**Ffigur 3.4: Bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i feddygfa deulu (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl rhywedd, oedran yr ymatebydd a pha un a oes ganddynt afiechyd cyfyngol neu anabledd ai peidio)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), dynion (289), menywod (319), 16-44 oed (126), 45-65 oed (232), 65+ (251), ymatebwyr ag afiechyd cyfyngol (254), ymatebwyr heb afiechyd cyfyngol (355)

3.10 Fel a nodwyd eisoes, ni holwyd am fodlonrwydd y gwasanaeth a geir (o'i wrthgyferbynnu â bodlonrwydd ar fynediad) fel rhan o Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd gan bod ymatebwyr eisoes wedi ateb y cwestiynau hyn fel rhan o gyfweliad Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) 2017-2018. Pan ydym yn archwilio canfyddiadau ACC 2017-2018 ymhlith y rhai a gymerodd ran yn Arolwg Dinasyddion TC, rydym yn canfod bod bodlonrwydd ar y gofal cyffredinol yn y feddygfa deulu yn dda ar y cyfan – dywedodd 86% eu bod yn fodlon gan gynnwys 59% sy'n fodlon iawn. Dywedodd cyfanswm o 13% eu bod yn anfodlon ar y gofal yr oeddent yn ei gael yn y feddygfa deulu.

**Ffigur 3.5: Bodlonrwydd ar y gwasanaeth cyffredinol mewn meddygfeydd teulu (%)**





Sail: ACC 2017-2018 – Ymatebwyr i Arolwg TC a atebodd y cwestiwn hwn yn ACC (221)

### 3.2.2 Gwasanaethau ysbytai

3.11 I ryw raddau, mae canfyddiadau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau ysbytai’n adlewyrchu’r rhai ar gyfer gwasanaethau meddygfeydd teulu. Roedd bodlonrwydd ar gael apwyntiad mewn ysbyty o fewn ffrâm amser resymol yn gymysg – roedd 40% yn fodlon ar hyn ond roedd bron yr un gyfran (39%) yn anfodlon. Roedd bodlonrwydd yn cynyddu gydag oedran gyda 49% o’r rhai 65+ oed yn mynegi anfodlonrwydd ar gael apwyntiad mewn ysbyty o fewn ffrâm amser resymol o’i gymharu â 33% o’r rhai 16-44 oed. Cafodd y patrwm ymateb hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir ei gymhwyso i’r boblogaeth ehangach. Roedd gwahaniaethau rhwng ardaloedd byrddau iechyd ar gyfer bodlonrwydd ar amseroedd apwyntiadau mewn ysbytai’n llai amlwg nag oeddent ar gyfer apwyntiadau ar gyfer gwasanaethau meddygfeydd teulu.


**Ffigur 3.6: Bodlonrwydd ar gael apwyntiad mewn ysbyty o fewn ffrâm amser resymol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd ac yn ôl y rhai a oedd yn byw yn ardaloedd gwahanol fyrddau iechyd)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), 16-44 (126), 45-64 (232), 65+ (251) y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (108) y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf (187), y rhai a oedd yn byw ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (301)

3.12 Fel a ddangosir yn Ffigur 3.7, roedd mwyafrif (72%) o'r ymatebwyr i'r arolwg yn fodlon ar rwyddineb teithio i ysbyty lleol, er bod 1 ymhob 5 (20%) wedi dweud eu bod yn anfodlon ar hyn a bod hyn yn cynyddu gydag oedran – roedd 28% yn anfodlon ymhlith y rhai 65+ oed o'i gymharu ag 16% ymhlith y rhai 16-44 oed. Cafodd y patrwm ymateb hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 3.7: Bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i'r ysbyty lleol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), 16-44 (126), 45-64 (232), 65+ (251)

3.13 Fel gyda rhwyddineb teithio i feddygfa deulu, roedd bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i ysbyty lleol hefyd yn amrywio yn ôl rhywedd a pha un a oedd gan yr ymatebydd afiechyd cyfyngol neu anabledd. Eto, roedd menywod a'r rhai ag afiechyd cyfyngol neu anabledd yn llai bodlon a chafodd y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach (Ffigur 3.8).


**Ffigur 3.8: Bodlonrwydd ar rwyddineb teithio i ysbyty lleol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl rhywedd a pha un a oes ganddynt afiechyd cyfyngol neu anabledd ai peidio)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), dynion (289), menywod (319), ymatebwyr ag afiechyd cyfyngol (254), ymatebwyr heb afiechyd cyfyngol (355)

3.14 O ran bodlonrwydd ar y gwasanaeth cyffredinol yn eu hysbyty lleol, wedi'i fesur eto yn ôl ymatebion ACC 2017-18 ymhlith y rhai a gymerodd ran yn Arolwg Dinasyddion TC, fel gyda gwasanaeth meddygfeydd teulu, mae'r mwyafrif yn fodlon – 87% gan gynnwys 66% sy'n *fodlon iawn*.

**Ffigur 3.9: Bodlonrwydd ar y gwasanaeth cyffredinol yn yr ysbyty lleol (%)**





Sail: NSW 2017-2018 – Ymatebwyr i Arolwg TC a atebodd y cwestiwn hwn yn ACC (284)

### 3.2.3 Gwasanaethau ambiwlans

3.15 Ni chafodd bodlonrwydd ar fynediad at wasanaethau ambiwlans yn ogystal â'r gwasanaeth ei hun ei fesur gan Arolwg Tasglu'r Cymoedd nac ACC 2017-2018. Fodd bynnag, holwyd am fodlonrwydd ar y gwasanaeth yn ACC 2016-2017 ymhlith y rhai a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y 12 mis diwethaf. Mae'r gyfradd bodlonrwydd ar y gwasanaeth hwn ar y cyfan, sef 89%, yn debyg iawn i'r un ar gyfer ymweliadau â meddygfeydd teulu ac ysbytai.

**Ffigur 3.10: Bodlonrwydd ar wasanaethau Ambiwlans (%)**





Sail: ACC 2016-2017 – Pobl yn byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd a gymerodd ran yn ACC 2016-2017 ac a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth ambiwlans (360)

## 3.3 Gwasanaethau addysg

3.16 Pan ofynnwyd pa mor fodlon oeddent ar allu cael lle mewn ysgol dda i'm plentyn / plant dywedodd tua hanner yr ymatebwyr i'r arolwg nad oedd hyn yn berthnasol iddynt. Ymhlith y rhai a oedd yn meddwl ei fod yn berthnasol, roedd 8 ymhob 10 (80%) yn fodlon ar allu cael lle mewn ysgol dda i'w plentyn / plant. Roedd ychydig dros 1 ymhob 10 (11%) yn anfodlon ar fynediad at leoedd mewn ysgolion da.

**Ffigur 3.11: Bodlonrwydd ar allu cael lle mewn ysgol dda i'm plentyn / plant (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr na wnaethant ateb 'ddim yn gymwys / ddim yn berthnasol' pan holwyd am fodlonrwydd ar allu cael lle mewn ysgol dda i'm plentyn / plant (308)

3.17 O ran bodlonrwydd ar wasanaethau addysg mae tri phrif gwestiwn y gallwn ymchwilio iddynt o ACC 2017-2018 i ddeall barn pobl:


- Bodlonrwydd cyffredinol ar y system addysg yng Nghymru
- Bodlonrwydd cyffredinol ar ysgol gynradd eu plentyn
- Bodlonrwydd cyffredinol ar ysgol uwchradd eu plentyn

3.18 Ar y cyfan, rhoddodd y rhai a gymerodd ran yn Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd sgôr o 5.8 allan o 10 i'r system addysg yng Nghymru fel rhan o gyfweliad ACC 2017-18. Mae'r sgôr cyfartalog hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod 81% o ymatebwyr wedi rhoi sgôr rhwng 3 ac 8 i'r system addysg, gydag ychydig iawn yn rhoi sgôr arbennig o uchel, 9 neu 10 (3%) neu arbennig o isel, 0-2 (4%). Rhoddodd cyfanswm o 13% yr ateb ddim yn gwybod i'r cwestiwn hwn.

3.19 Pan ofynnwyd iddynt ystyried bodlonrwydd ar ysgol eu plentyn eu hunain, roedd sgoriau'n tueddu i fod ychydig yn fwy ffafriol na'r rhai i'r system addysg yn ei chyfanrwydd. O'r rhai a roddodd sgôr i ysgolion cynradd, roedd 88% yn fodlon ar eu

hysgol gan gynnwys 61% a oedd yn *fodlon iawn*. Ymhlith y rhai a roddodd sgôr i ysgolion uwchradd, roedd 82% yn fodlon ond nid oedd y cryfder teimlad mor gadarnhaol ag ar gyfer ysgolion cynradd – roedd 35% yn *fodlon iawn*.

**Ffigur 3.12: Bodlonrwydd ar ysgol y plentyn – Cynradd ac Uwchradd (%)**





Sail: ACC 2017-2018 – Ymatebwyr i arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC - Cynradd (51), Uwchradd (45)

### 3.4 Gwasanaethau gofal cymdeithasol

3.20 Fel gydag addysg, nid oedd tua hanner yr ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn berthnasol iddynt. Ymhlith y rhai a oedd o'r farn eu bod yn berthnasol, roedd mwyafrif (56%) yn fodlon ar allu cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol ar eu cyfer hwy eu hunain neu aelod o'r teulu. Fodd bynnag, mynegodd lleiafrif sylweddol (26%) anfodlonrwydd ar y mynediad hwn.

**Ffigur 3.13: Bodlonrwydd ar allu cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol ar fy nghyfer i fy hun neu ar gyfer aelod o'r teulu (%)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr na wnaethant ateb 'ddim yn gymwys / ddim yn berthnasol' pan holwyd am fodlonrwydd ar allu cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol ar fy nghyfer i fy hun neu ar gyfer aelod o'r teulu (302)

3.21 O ran y gwasanaeth ei hun, rydym yn troi eto at ddata ACC, y tro hwn gan archwilio canlyniadau o arolwg 2016-2017 ymhlith y rhai a oedd yn byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd ac a oedd â phrofiad o wasanaethau gofal cymdeithasol. Ymhlith y cohort hwn, mae'r farn am y gwasanaeth yn tueddu i fod yn ffafriol gyda bron i dri chwarter (72%) yn cytuno â'r gosodiad *mae gwasanaethau gofal a chymorth wedi fy helpu i fod ag ansawdd bywyd gwell* a dim ond 13% yn anghytuno.

## 3.5 Gwasanaethau tai

3.22 Ymhlith y rhai a oedd o'r farn y gallai gwasanaethau tai cymdeithasol fod yn berthnasol iddynt hwy neu aelod o'r teulu, roedd bodlonrwydd ar allu siarad gyda rhywun am anghenion neu faterion tai cymdeithasol yn debyg i ganfyddiadau ynglŷn â gwasanaethau gofal cymdeithasol – roedd mwyafrif bach (56%) yn fodlon ond mynegwyd anfodlonrwydd gan oddeutu 1 ymhob 4 (25%).

**Ffigur 3.14: Bodlonrwydd ar allu siarad gyda rhywun am anghenion neu faterion tai cymdeithasol a all fod gan fy nheulu (%)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC - Yr holl ymatebwyr na wnaethant ateb 'ddim yn gymwys / ddim yn berthnasol' pan holwyd am fodlonrwydd ar allu siarad gyda rhywun am anghenion neu faterion tai cymdeithasol a all fod gan fy nheulu (260)

## 3.6 Gwasanaethau hamdden

3.23 Casglwyd gwybodaeth am fynediad at nifer o wahanol weithgareddau hamdden gan Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd, sef parciau/mannau agored, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a llyfrgelloedd cyhoeddus. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (9 ymhob 10 neu fwy) o'r farn bod pob un o'r gweithgareddau hyn yn berthnasol iddynt hwy, ond nid yw sgoriau bodlonrwydd yn Ffigur 3.13 yn cynnwys y rhai a ddywedodd nad yw pob un o'r rhain yn berthnasol iddynt.

3.24 Mae'r farn ynglŷn â mynediad at bob un o'r cyfleusterau hyn yn gadarnhaol at ei gilydd, yn enwedig gallu ymweld â pharciau neu fannau agored lle'r oedd 89% o'r ymatebwyr yn fodlon gan gynnwys 56% a oedd yn *fodlon iawn*. Cofnodwyd lefelau bodlonrwydd tebyg ar gyfer gallu ymweld â llyfrgell gyhoeddus sy'n agos ataf (85% yn fodlon) a gallu ymweld â chyfleusterau hamdden a chwaraeon sy'n agos (82% yn fodlon).

**Ffigur 3.15: Bodlonrwydd ar fynediad at wahanol wasanaethau hamdden (%)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr na wnaethant ateb 'ddim yn gymwys / ddim yn berthnasol' pan holwyd am fodlonrwydd ar allu ymweld â pharciau neu fannau agored (594) / cyfleusterau hamdden a chwaraeon (561) / llyfrgelloedd cyhoeddus (564)

3.25 Casglwyd gwybodaeth am fodlonrwydd ar ymweliadau â gweithgareddau hamdden penodol fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-2017. Roedd gan ymatebwyr a oedd yn byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd farn gadarnhaol iawn ar y cyfan am y gweithgareddau hamdden yr oeddent wedi'u profi[21]. Mae Ffigur 3.14 yn dangos, ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd cyhoeddus a mannau hanesyddol, bod bron pob ymwelydd yn fodlon ar ei ymweliad diwethaf gyda thros 7 ymhob 10 yn *fodlon iawn*.

[21] Er bod y dadansoddiad yn seiliedig ar y rhai sy'n byw yn ardaloedd TC, nid oedd y safle hamdden yr oeddent wedi ymweld ag ef wedi'i leoli yn ardal TC o anghenraid. Roedd cwestiynau yn ACC 2016-17 yn cyfeirio at safleoedd hamdden 'yng Nghymru'.

**Ffigur 3.16: Bodlonrwydd ar ddefnyddio gwahanol wasanaethau hamdden (%)**




Sail: ACC 2016-2017 – Y rhai a oedd yn byw yn ardaloedd TC a gymerodd ran yn ACC 2016-2017 ac a oedd wedi ymweld â phob un o'r canlynol - amgueddfeydd (500), llyfrgell gyhoeddus (736), man hanesyddol (641)


# 4. Fy nghymuned leol

## 4.1 Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal

4.1 Mae bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal y maent yn byw ynddi a ddangosir yn Ffigur 4.1 ac yn gyffredinol y rhai sy'n byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn tueddu i fod yn gadarnhaol. Roedd y mwyafrif (83%) yn fodlon ar yr ardal y maent yn byw ynddi gyda'r grŵp hwn wedi'i rannu'n gymharol gyfartal rhwng y rhai sy'n *fodlon iawn* (40%) ac yn *weddol fodlon* (43%). Dim ond ychydig dros 1 ymhob 10 (11%) ddywedodd eu bod yn anfodlon ar eu hardal leol.

4.2 Mae Ffigur 4.1 hefyd yn dangos canfyddiadau yn ôl oedran. Roedd o leiaf 8 ymhob 10 o bob grŵp oedran yn fodlon (*bodlon iawn* neu'n *weddol fodlon*). Fodd bynnag, wrth edrych ar yr ymateb mwyaf cadarnhaol (*bodlon iawn*) ceir gwahaniaethau mwy yn ôl grŵp oedran gydag ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o nodi'r lefel uchaf o fodlonrwydd – 51% yn fodlon iawn ymhlith ymatebwyr 65+ o'i gymharu â 34% ymhlith ymatebwyr 16-44 oed. Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.1: Bodlonrwydd ar yr ardal leol fel lle i fyw (%) (Yn ôl yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**





Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), ymatebwyr 16-44 oed (126), ymatebwyr 45-64 oed (232), ymatebwyr 65+ (251)

4.3 Mae Ffigur 4.1 yn dangos bodlonrwydd cyffredinol ymhlith gwahanol ardaloedd yn ôl eu sgôr ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[22] (MALIC) gydag ymatebwyr wedi'u rhannu'n gwintelau – h.y. y rhai sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru, y rhai sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd lleiaf amddifadus yng Nghymru a phob 20% o ardaloedd rhwng y rhain.

4.4 Er bod o leiaf dri chwarter o'r ymatebwyr sy'n byw ym mhob categori wedi dweud eu bod yn fodlon ar yr ardal y maent yn byw ynddi, ceir gwahaniaethau amlwg yn ôl cwintel, yn enwedig o ran y cyfrannau sy'n *fodlon iawn* ar eu hardal leol (57% ymhlith y lleiaf amddifadus o'i gymharu â 29% ymhlith y mwyaf amddifadus). Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.2: Bodlonrwydd ar yr ardal leol fel lle i fyw (%) (Yn ôl yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel ym MALIC)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), C1 (137), C2 (185), C3 (128), C4 (73), C5 (86)

[22] Mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru yw MALIC. Mae'n gosod yr holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mewn trefn restrol o 1 (mwyaf amddifadus) i 1909 (lleiaf amddifadus). Mae rhannu'r canlyniadau hyn yn gwintelau'n gwahanu'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hyn yn bum grŵp o faint cyfartal (niferoedd yr ACEHI) yn seiliedig ar eu safle yn fersiwn 2014 o'r Mynegai. Ers llunio'r dadansoddiad hwn mae MALIC diweddaredig (2019) wedi cael ei gyhoeddi.

4.5 Er mwyn archwilio'r farn gyffredinol am eu hardal ymhellach, gofynnwyd cwestiwn agored i'r ymatebwyr a oedd yn gofyn beth oedd y pethau gorau ynglŷn â byw yn eu hardal yn eu tyb hwy. Fe atebodd yr ymatebwyr yn eu geiriau eu hunain ac mae'r ymatebion wedi cael eu grwpio'n themâu cyffredin fel a ddangosir yn nhabl 4.1.

4.6 Yr agwedd gadarnhaol ar yr ardal leol a grybwyllwyd fynychaf oedd yr amgylchedd naturiol gyda bron i draean (31%) yn nodi rhywbeth a oedd yn ymwneud â hyn. Y themâu eang eraill a oedd yn tueddu i gael eu crybwyll oedd:

- Yr awyrgylch / y bobl – h.y. yr *ysbryd cymunedol* (14%), bod y gymuned yn *gyfeillgar* (7%) a bod *cymdogion da neu bobl dda* yn yr ardal (12%)

- Lleoliad a chysylltiadau cludiant – *mynediad rhwydd at bopeth / lleoliad cyfleus (14%), cludiant cyhoeddus / cysylltiadau cludiant da* (17%)


**Tabl 4.1: Y pethau gorau ynglŷn â byw yn yr ardal leol [digymell]**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Cefn gwlad / mynyddoedd / gwyrddlesni / parciau / mannau agored / golygfaol / gwledig | 31 |
| Cludiant cyhoeddus / cysylltiadau cludiant da | 17 |
| Heddychlon / tawel | 14 |
| Ysbryd cymunedol | 14 |
| Mynediad rhwydd at bopeth / lleoliad cyfleus | 14 |
| Cymdogion / y bobl | 12 |
| Mynediad at siopau | 8 |
| Cyfeillgar | 7 |
| Bro fy mebyd / wedi bod yma am amser hir / teulu, ffrindiau yma | 7 |
| Mynediad at deithiau cerdded / llwybrau beicio | 6 |
| Diogel / ychydig o droseddu | 5 |
| Mynediad at wasanaethau hamdden | 5 |
| Cyfleusterau / amwynderau da | 5 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mynediad at wasanaethau meddygol | |
| Tai fforddiadwy | |
| Glân / taclus | |
| Cost pethau | |
| Cymuned amrywiol | |
| Da i blant | |
| Ysgolion da | |
| Dim byd | |
| Digonedd i'w wneud | |

Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609)
(a) Mae cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant gan bod yr ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb
(b) Caiff ymatebion eraill eu cyflwyno yn nhrefn yr wyddor

4.7 I grynhoi eu teimlad cyffredinol am eu hardal leol gofynnwyd i'r ymatebwyr a hoffent barhau i fyw yn yr ardal yr oeddent yn byw ynddi ynteu a fyddent yn symud allan ohoni pe baent yn cael y cyfle (Ffigur 4.4). Byddai'r mwyafrif, tri chwarter (73%) yn hoffi parhau i fyw yn yr ardal hon. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl oedran i ryw raddau gydag 88% o'r rhai 65+ oed yn dweud y byddai'n well ganddynt aros ond mae'r gyfran hon yn gostwng i 59% ymhlith y rhai 16-44 oed. Caiff y gwahaniaeth hwn ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 4.3: Pa un a fyddai'r ymatebydd yn hoffi aros neu adael yr ardal leol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), ymatebwyr 16-44 oed (126), ymatebwyr 45-64 oed (232), ymatebwyr 65+ oed (251)

4.8 Nodwyd amrywiaeth yn ôl cwintel ym MALIC hefyd gyda thuedd i ddymuno barhau i fyw yn yr ardal ar ei hisaf ymhlith y rhai a oedd yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru (62%).

**Ffigur 4.4: Pa un a fyddent yn hoffi aros neu adael yr ardal leol (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel ym MALIC)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609), C1 (137), C2 (185), C3 (128), C4 (73), C5 (86)

4.9 Caiff y rhesymau dros ddymuno symud allan o'r ardal pe bai cyfle eu harchwilio yn Nhabl 4.2. Ymhlith y grŵp hwn, y themâu cyffredin a ganfuwyd o atebion air am air a ddarparwyd oedd y byddai'n well i'w plant ac y byddai rhagolygon swyddi neu gyfleoedd gwell pe baent yn symud allan.

**Tabl 4.2: Rhesymau dros ddymuno symud allan o'r ardal leol [digymell]**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Mae lleoedd eraill yn well i blant | 16 |
| Diffyg cyfleoedd yn fy ardal leol | 12 |
| Gyrfa / rhagolygon swyddi gwell | 10 |
| Am gael cyfleusterau, gwasanaethau gwell/ mwy ohonynt | 8 |
| Lefel troseddu / cyffuriau / ymddygiad gwrthgymdeithasol | 8 |
| Fe hoffwn i fyw wrth y môr | 7 |
| Rhesymau iechyd / angen rhywle mwy gwastad | 7 |
| Am newid cartref | 6 |
| Mae'r ardal hon yn mynd yn waeth | 6 |
| Ddim yn hoffi'r ardal hon | 5 |
| Dim llawer yn yr ardal hon / mwy mewn mannau eraill | 5 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Mae hon yn ardal amddifadus / ardal â thlodi | |
| Rwy'n mynd yn hŷn, angen newid cartref | |
| Dim ond i gael newid | |
| Diffyg buddsoddi / seilwaith yn yr ardal hon | |
| Fe hoffwn i symud yn nes at deulu | |
| Ddim yn hoffi pobl / cymdogion yn yr ardal hon | |
| Am gael rhywle tawelach, llai prysur | |
| Byddai'n well gen i fyw dramor | |

Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Y rhai sy'n dymuno gadael eu hardal leol pe baent yn cael y cyfle (118)

(a) Mae cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod yr ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb

(b) Caiff ymatebion eraill eu cyflwyno yn nhrefn yr wyddor


## 4.2 Cydlyniant cymunedol

4.10 Mae’r adran uchod yn darparu peth tystiolaeth o gydlyniant o fewn ardal TC gan bod *ysbryd cymunedol* yn cael ei grybwyll yn ddigymell fel un o’r pethau gorau ynglŷn â byw yn yr ardal. Cyflwynwyd tri gosodiad pellach i ymatebwyr am eu hardal leol a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu’n anghytuno â phob un fel a ddangosir yn Ffigur 4.5.

4.11 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn llawer mwy tebygol o gytuno nag o anghytuno â gosodiadau cadarnhaol ynglŷn â chydlyniant cymunedol. Roedd bron i 8 ymhob 10 (79%) yn cytuno eu bod yn perthyn i’w hardal leol – roedd 45% yn *cytuno’n gryf*, roedd 35% yn *tueddu i gytuno – a dim ond 1 ym mhob 10 (10%) oedd yn anghytuno â hyn*.

4.12 Roedd mwyafrif (7 ymhob 10) hefyd yn cytuno bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth ac roedd ychydig yn llai (64%) yn cytuno bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu’n dda.


**Ffigur 4.5: Y ganran a oedd yn cytuno ag amryw osodiadau ynglŷn â chydlyniant cymunedol**




Sail Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609)

4.13 Ar gyfer pob un o'r tri gosodiad, roedd teimladau cadarnhaol ynglŷn â chydlyniant cymunedol ar eu cryfaf ymhlith y grwpiau oedran hŷn fel a ddangosir yn Ffigur 4.6 sy'n nodi'r gyfran sy'n *cytuno'n gryf* â phob gosodiad ymhlith tri grŵp oedran. Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 4.6: Y ganran sy'n cytuno'n gryf ag amryw osodiadau ynglŷn â chydlyniant cymunedol (yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**




*Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609)*

4.14 Canfuwyd gwahaniaethau arwyddocaol eraill o ran barn ynglŷn â chydlyniant cymunedol yn ôl cwintel ym MALIC. Roedd y rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus yn fwy tebygol o gytuno bod eu *hardal leol yn rhywle lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd* a bod *pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth* na'r rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

**Ffigur 4.7: Y ganran sy'n cytuno'n gryf ag amryw osodiadau ynglŷn â chydlyniant cymunedol (yn ôl cwintel ym MALIC)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609)

4.15 Roedd y rhai sydd ag afiechyd cyfyngol neu anabledd yn llai tebygol o gytuno bod *pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth* na'r rhai heb y cyflyrau hyn.

## 4.3 Cymunedau Iach


### 4.3.1 Bodlonrwydd ar fywyd a lles meddyliol

4.14 Er mwyn deall a yw elfennau allweddol sy'n creu cymunedau iach yn bresennol yn ardal Tasglu'r Cymoedd, rydym yn archwilio atebion ymatebwyr i Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd i gwestiynau yn ACC 2017-2018. Mae'r cwestiynau hyn yn cwmpasu nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig â lles corfforol a meddyliol ac yn cynnwys rhai o'r cwestiynau mewn perthynas â dangosyddion llesiant cenedlaethol dynodedig a ofynnir yn ACC.

4.15 Pan ofynnwyd iddynt roi sgôr i'w bodlonrwydd cyffredinol ar eu bywyd ar raddfa o 0 i 10 roedd y canfyddiadau, at ei gilydd, yn gadarnhaol. Rhoddodd y mwyafrif (79%) o'r rhai a oedd yn byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd sgôr o 7 neu uwch i'w bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd, gan gynnwys tua thraean a roddodd sgôr o 9 neu 10 i hyn.

4.16 Fe wnaeth y rhai yn y grŵp oedran canolig (45-64) nodi lefelau is o fodlonrwydd cyffredinol ar fywyd gyda 73% yn rhoi sgôr o 7 neu fwy i hyn o'i gymharu ag 80% ymhlith ymatebwyr 16-44 oed ac 84% ymhlith ymatebwyr 65+ oed fel a ddangosir yn Ffigur 4.8. Caiff y gwahaniaeth ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r patrwm ymateb yn benodol i ardal Tasglu'r Cymoedd nac yn wir Cymru ac fe'i canfuwyd mewn nifer o astudiaethau mewn gwahanol wledydd.[23]

**Ffigur 4.8: Bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd – y ganran sy'n rhoi sgoriau mewn gwahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**





Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (609), ymatebwyr 16-44 oed (126), ymatebwyr 45-64 oed (232), ymatebwyr 65+ oed (251)

4.17 Mae teimladau o hapusrwydd cyffredinol a pha un a yw pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil yn dilyn patrwm tebyg i fodlonrwydd cyffredinol ar fywyd. Rhoddodd y mwyafrif o ymatebwyr sgôr cadarnhaol o 7 neu fwy gyda'r rhain wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a roddodd sgôr o 9 neu 10 a'r rhai a roddodd sgôr o 7 neu 8 fel a ddangosir yn Ffigur 4.9.

---

[23] Blanchflower, D.G. and Oswald, A.J., 2019. Do humans suffer a psychological low in midlife? Two approaches (with and without controls) in seven data sets. In *The Economics of Happiness*

**Ffigur 4.9: Hapusrwydd cyffredinol a pha un a ydynt yn teimlo bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 10**




Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (609)


4.18 Ar y ddau fesur uchod (fel gyda bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd), y rhai yn y grŵp oedran canol (45-64) oedd yn tueddi i fod leiaf cadarnhaol – rhoddodd 68% o'r grŵp oedran hwn sgôr o 7 neu fwy iddynt hwy eu hunain o ran *hapusrwydd cyffredinol* (o'i gymharu ag 81% o ymatebwyr 16-44 oed a 77% o ymatebwyr 65+ oed). Roedd y ffigyrau cyfatebol ar gyfer teimlo bod *pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil* yn 77% ymhlith ymatebwyr 45-64 oed o'i gymharu ag 87% o ymatebwyr 16-44 oed ac 86% o ymatebwyr 65+ oed. Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach. Eto, mae'r canfyddiadau hyn yn ôl oedran yn nodweddiadol o'r rhai a ganfuwyd mewn astudiaethau eraill.[24]

4.19 Yn ychwanegol at oedran, canfuwyd gwahaniaethau o ran *hapusrwydd cyffredinol* a theimlo bod *pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil* yn ôl cwintel MALIC a pha un a oedd gan ymatebwyr afiechyd cyfyngol neu anabledd. Dangosir canfyddiadau yn Ffigurau 4.10 a 4.11 ac maent yn dangos bod y rhai a oedd o ardaloedd mwy amddifadus a'r rhai ag afiechydon cyfyngol neu anableddau'n llai

[24] Blanchflower, D.G. and Oswald, A.J., 2019. Do humans suffer a psychological low in midlife? Two approaches (with and without controls) in seven data sets. In *The Economics of Happiness*


cadarnhaol lle mae'r mesurau hyn yn y cwestiwn. Caiff y gwahaniaethau hyn eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.10a: Hapusrwydd cyffredinol – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel MALIC)**





Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i Arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (609), C1 (137), C2 (185), C3 (128), C4 (73), C5 (86)

**Ffigur 4.10b: Hapusrwydd cyffredinol – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl pa un a oes gan yr ymatebydd afiechyd cyfyngol neu anabledd ai peidio)**





Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (609), ymatebwyr ag afiechyd cyfyngol (254), ymatebwyr HEB afiechyd cyfyngol (355)

**Ffigur 4.11a: Pa un a oeddent yn teimlo bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil – y ganran a roddodd sgôr ar wahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel ym MALIC)**




Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (609), C1 (137), C2 (185), C3 (128), C4 (73), C5 (86)


**Ffigur 4.11b: Pa un a oeddent yn teimlo bod pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil – y ganran a roddodd sgôr ar wahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl pa un a oes gan yr ymatebydd afiechyd cyfyngol neu anabledd ai peidio)**




Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (609), ymatebwyr ag afiechyd cyfyngol (254), ymatebwyr heb afiechyd cyfyngol (355)

4.20 Ceir tystiolaeth bellach o les yn Ffigur 4.12 sy’n dangos i ba raddau y mae pobl yn credu y *gellir ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl*. Ar y mesur hwn mae’r sgoriau’n is yn yr ystyr mai dim ond tua 4 ymhob 10 sy’n rhoi sgôr o 7 neu fwy i hyn. Roedd y rhai 65+ oed yn llawer mwy tebygol o nodi’r lefel uchel hon o ymddiriedaeth – 55% o’i gymharu â 34% ar gyfer y grwpiau oedran iau.


**Ffigur 4.12: Pa un a ellir ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 10 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**




Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (609), ymatebwyr 16-44 oed (126), ymatebwyr 45-64 oed (232), ymatebwyr 65+ oed (251)

4.21 Eto, y rhai 65+ oed sydd fwyaf cadarnhaol pan fo dangosydd llesiant cenedlaethol unigrwydd yn cael ei archwilio (Ffigur 4.12). Dim ond 13% o'r rhai 65+ oed roddodd eu hunain ym mhen uchaf y raddfa unigrwydd (4 i 6 ar raddfa o 0 i 6). Mae'r gyfran hon bron ddwywaith yn fwy ymhlith y grŵp canol oed (25%) ac mae hefyd yn uwch ymhlith y rhai 16-44 oed (21%). Caiff y gwahaniaethau hyn yn ôl oedran eu cadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.13: Pa un a yw pobl yn teimlo'n unig – y ganran a roddodd sgôr mewn gwahanol amrediadau allan o 6 (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**




Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i Arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (578), ymatebwyr 16-44 oed (121), ymatebwyr 45-64 oed (223), ymatebwyr 65+ oed (234)

4.22 Fel gyda dangosyddion llesiant eraill, roedd y rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd mwy amddifadus a'r rhai ag afiechyd cyfyngol neu anabledd yn fwy tebygol o deimlo'n unig.


### 4.3.2 Iechyd ac Ymddygiadau iach

4.23 O ran iechyd cyffredinol hunangofnodedig, dywedodd ychydig dros 6 ymhob 10 (63%) fod hwn yn *dda iawn* neu'n *dda* a dywedodd 21% fod hwn yn *weddol* a 15% ei fod yn *wael* neu'n *wael iawn.*

4.24 Mae iechyd cyffredinol hunangofnodedig i ryw raddau'n adlewyrchu oedran. Roedd ymatebwyr iau (16 – 44 oed) yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd yn *dda iawn* neu'n *dda* (75%) nag ymatebwyr 65+ oed (51%). Cafodd y gwahaniaeth hwn ei

gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.14: Iechyd cyffredinol hunangofnodedig (%) (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**




Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i Arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (609), ymatebwyr 16-44 oed (126), ymatebwyr 45-64 oed (232), ymatebwyr 65+ oed (251)

4.25 Mae dangosyddion llesiant cenedlaethol sy'n ymwneud ag iechyd yn canolbwyntio ar nifer yr ymddygiadau iach o ran eu ffordd o fyw sy'n berthnasol i unigolion:


- Peidio ag ysmygu
- Pwysau iach
- Bwyta 5 ffrwyth neu lysieuyn y dydd
- Peidio ag yfed mwy nag a nodir yn y canllawiau
- Bod yn gorfforol egnïol

4.26 Yn ardal Tasglu'r Cymoedd, mae unigolion yn fwyaf tebygol o ddangos 2 neu 3 o'r ymddygiadau iach hyn o ran eu ffordd o fyw (63%). Dywedodd tuag 1 ymhob 6 (17%) fod 4 neu 5 o'r ymddygiadau hyn yn berthnasol iddynt hwy ac ar ben arall y

raddfa dywedodd tuag 1 ymhob 10 (11%) mai dim ond 0 neu 1 o'r ymddygiadau hyn sy'n berthnasol.

4.27 Y grŵp oedran ieuengaf (y rhai 16-44 oed) oedd fwyaf tebygol o ddweud bod nifer uwch o ymddygiadau iach o ran eu ffordd o fyw yn berthnasol iddynt hwy – dywedodd 23% fod 4 neu 5 yn berthnasol. Y grŵp canol oed (ymatebwyr 45-64 oed) oedd leiaf tebygol o ddweud bod ymddygiadau iach o ran eu ffordd o fyw'n berthnasol iddynt – dim ond 1 ymhob 10 (10%) ddywedodd fod 4 neu 5 ymddygiad sy'n rhan o ffordd iach o fyw'n berthnasol iddynt. Hefyd, roedd y gyfran o'r grŵp oedran hwn a ddywedodd mai dim ond 0 neu 1 ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw oedd yn berthnasol iddynt (17%) tua dwbl y gyfran o grwpiau oedran eraill fel a ddangosir yn Ffigur 4.15.


**Ffigur 4.15: Nifer yr ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw – y ganran a nododd bob amrediad niferoedd (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl categori oedran yr ymatebydd)**




Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i Arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (302), ymatebwyr 16-44 oed (63), ymatebwyr 45-64 oed (108), ymatebwyr 65+ oed (131)

4.28 Roedd nodi ymddygiadau iach o ran eu ffordd o fyw yn gysylltiedig â chwintel ym MALIC. Roedd y rhai yn yr ardal leiaf amddifadus lawer yn fwy tebygol o nodi 4-5 ymddygiad iach (nododd 39% 4-5 ymddygiad iach) na'r rhai yn yr ardal fwyaf amddifadus (nododd 10% 4-5 ymddygiad iach) fel a ddangosir yn nhabl 4.16.

**Ffigur 4.16: Nifer yr ymddygiadau iach o ran ffordd o fyw – y ganran a nododd bob amrediad niferoedd (Yr holl ymatebwyr ac yn ôl cwintel ym MALIC)**





Sail: ACC 2017-2018 - Ymatebwyr i Arolwg TC a atebodd y cwestiynau hyn yn ACC – Yr holl ymatebwyr (302), C1(65), C2 (88), C3 (68), C4 (37), C5 (44)

4.29 Roedd y rhai heb afiechydon cyfyngol neu anableddau hefyd yn fwy tebygol o nodi 4-5 ymddygiad iach sy'n rhan o'u ffordd o fyw (22%) na'r rhai â'r cyflyrau hyn (8%). Caiff y gwahaniaeth hwn, fel gyda'r un yn ôl cwintel ym MALIC, ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly gellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

## 4.4 Teithio o amgylch yr ardal (at ddibenion heblaw gwaith)

4.30 Pa un a yw trigolion lleol yn teithio i'r siopau / i'r feddygfa deulu neu i gyfleusterau hamdden yn eu hardal leol, roedd siwrneiau'n fwyaf tebygol o gael eu gwneud mewn car neu fàn. Ym mhob achos, dywedodd tua 6 ymhob 10 mai hwn oedd eu dull cludiant arferol. Y prif ddull cludiant arall oedd cerdded neu redeg tra bo bysiau'n cael eu defnyddio gan leiafrif bach yn unig (rhwng 5% a 9% gan ddibynnu ar y lle yr ymwelir ag ef) fel a ddangosir yn Ffigur 4.17.

**Ffigur 4.17: Dull cludiant arferol ar gyfer cael mynediad at wahanol wasanaethau yn yr ardal leol (%)**




Sail: Arolwg Dinasyddion TC – Yr holl ymatebwyr (609)

4.31 Ymddengys fod anhawster teithio o amgylch yr ardal leol i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau megis siopau, gwasanaethau iechyd a chyfleusterau hamdden ar lefelau cymharol isel – dim ond 11% sy'n dweud bod hyn yn *gymharol anodd* neu'n *anodd iawn*. Mae'r gweddill (89%) o'r farn ei fod yn *hawdd iawn* neu'n *gymharol hawdd*.

## 5. Casgliadau

5.1 Mae'r Arolwg Dinasyddion wedi rhoi cipolwg ar themâu allweddol Tasglu'r Cymoedd – swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni, gwasanaethau cyhoeddus a fy nghymuned leol – a darperir casgliadau allweddol isod.

5.2 Yn galonogol, mae'r mwyafrif llethol o weithwyr yn ardal Tasglu'r Cymoedd o'r farn eu bod yn cael eu trin ag **urddas a pharch** yn eu gweithle. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eu gwneud yn ddiogel rhag teimlo pwysau gyda bron i hanner y gweithwyr yn dweud eu bod yn gweithio dan gryn dipyn o densiwn.

5.3 Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod **digon o hyblygrwydd** yn eu swydd i'w galluogi i gymryd awr neu ddwy o'r gwaith i ymdrin â mater personol, ond mae rheolaeth fwy helaeth ar amseroedd dechrau a gorffen y tu hwnt i'r mwyafrif o weithwyr. Ar ben hynny, mae llai na hanner i'w gweld yn sicr y byddai ganddynt unrhyw lais pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i newid y ffordd yr oeddent yn gwneud eu swydd.

5.4 Mae dadansoddiad o wybodaeth am broffil galwedigaethol a'r galw yn y dyfodol yn amlygu rhai **materion posibl o ran cynaliadwyedd** i'r gweithlu yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Mae disgwyl i rolau gweithgynhyrchu a galwedigaethau ar lefel ganolig ac is ddirywio ac mae'r rhain yn cael eu gorgynrychioli yn ardal Tasglu'r Cymoedd ar hyn o bryd. Mae cyfleoedd yn bodoli yn yr Economi Sylfaenol[25] y disgwylir iddi dyfu a lle mae gan Dasglu'r Cymoedd gynrychiolaeth uwch na'r cyfartaledd mewn rolau o'r fath (addysg, iechyd a gwaith cymdeithasol) yn berthynol i Gymru ar hyn o bryd. O ran canfyddiadau gweithwyr presennol eu hunain o gynaliadwyedd eu rôl, roedd 1 ymhob 4 yn ofni diweithdra yn y 12 mis nesaf.

5.5 Mae 4 ymhob 5 o'r gweithlu wedi cael **hyfforddiant** yn y 12 mis diwethaf ac mae bron pawb o blith y rhain yn teimlo bod hwn wedi bod yn ddigonol ar gyfer aros gyfuwch â'r sgiliau y mae eu hangen i wneud eu swydd. Ar ben hynny, nid yw'r rhai sy'n chwilio am waith ar hyn o bryd yn nodi mynediad at hyfforddiant fel un o'r prif rwystrau i gyflogaeth. Roedd y rhai a oedd yn chwilio'n fwy tebygol o nodi diffyg

[25] Mae'r Economi Sylfaenol yn enw ar gyfer y gweithgareddau busnes hynny yr ydym yn eu defnyddio bob dydd. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r Economi Sylfaenol.

cyfleoedd yn gyffredinol ac, er eu bod yn barod i dreulio amser yn teithio, y gallai anawsterau cludiant waethygu hyn.

5.6 O ran bodlonrwydd ar wasanaethau cyhoeddus yn ardal Tasglu'r Cymoedd, **ymddengys fod cael mynediad at rai ohonynt yn fwy o bryder na'r profiad o'r gwasanaeth ei hun**. Yn arbennig, roedd y gwasanaeth a geir wrth ddefnyddio'r tri phrif wasanaeth iechyd (meddygon teulu, ysbytai, ambiwlansys) yn ffafriol ar y cyfan ond roedd cael mynediad at y gwasanaethau hyn yn y lle cyntaf yn denu mwy o feirniadaeth, yn enwedig cael apwyntiad ar amser cyfleus mewn meddygfa deulu ac un o fewn ffrâm amser resymol mewn ysbyty. Y rhai a oedd yn byw yn ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf a nododd yr anfodlonrwydd mwyaf ar amseroedd apwyntiadau meddygon teulu, ac ar gyfer apwyntiadau mewn ysbytai ar y llaw arall oedran oedd y ffactor mwyaf gwahaniaethol, gydag ymatebwyr iau (16-44) yn fwy tebygol o nodi anfodlonrwydd.

5.7 I raddau llai, **roedd gallu siarad gyda rhywun am anghenion o ran tai cymdeithasol neu ofal cymdeithasol yn cael ei ystyried yn broblemus hefyd** i leiafrif sylweddol o'r rhai ac arnynt angen hyn.

5.8 **Ar y cyfan mae trigolion Tasglu'r Cymoedd yn hapus yn gyffredinol gyda'r ardal y maent yn byw ynddi** – dywedodd 83% eu bod yn fodlon ar y cyfan ac mae ar 73% eisiau aros yn yr ardal y maent ynddi yn hytrach na symud allan. Fodd bynnag, roedd trigolion iau yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i ddymuno symud allan ac roedd rhagolygon swyddi'n un o'r prif ysgogiadau ar gyfer hyn.

5.9 Mae ymatebion i nifer o **ddangosyddion llesiant** yn datgelu patrymau ymateb yn ardal Tasglu'r Cymoedd a geir mewn astudiaethau ymchwil eraill – sef **bod pobl ganol oed a'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus yn tueddu i beidio â gwneud cystal** ar y mesurau hunangofnodedig hyn[26] [27].

---

[26] Blanchflower, D.G. and Oswald, A.J., 2019. Do humans suffer a psychological low in midlife? Two approaches (with and without controls) in seven data sets. In *The Economics of Happiness*

[27] Health Survey for England 2016 Well-being and mental health

5.10 Ceir **dau ymarfer ymchwil pellach** a fyddai'n adeiladu ar y ddealltwriaeth a gafwyd o'r Arolwg Dinasyddion ac yn ychwanegu gwerth o ran rhoi arweiniad i waith y tasglu ac asesu ei effaith yn ein tyb ni, sef:

- Cymharu canfyddiadau yn ardal Tasglu'r Cymoedd ar y tair thema allweddol â'r darlun cenedlaethol – gallai hyn fod naill ai ar ffurf arolwg cenedlaethol pwrpasol a / neu ddefnyddio gwybodaeth o Arolwg Cenedlaethol Cymru neu'r Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth.

- Ailadrodd yr Arolwg Dinasyddion tuag at ddiwedd 2021 / yn gynnar yn 2022, i helpu i fesur effaith y Cynllun Cyflawni cyfredol (2019-2021) ar fywydau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ardal Tasglu'r Cymoedd.

## Atodiad 1 – Yr 16 o destunau ymchwil

**Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni:**

1. Beth allwn ni ei ddeall am y proffil cyflogaeth yn ardaloedd Tasglu'r Cymoedd?
2. I ba raddau y mae pobl mewn swyddi teg, diogel a chynaliadwy?
3. Beth yw profiadau pobl o deithio i'r gwaith a sut mae eu siwrne'n edrych?
4. Beth allwn ni ei ddeall am broffil sgiliau ardaloedd Tasglu'r Cymoedd?
5. Beth yw profiadau pobl o gael mynediad at sgiliau a chaffael sgiliau?
6. Beth yw profiadau pobl o gael mynediad at gyfleoedd i ddefnyddio'u sgiliau?
7. Beth yw profiadau pobl o gael mynediad at gyfleoedd i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg?
8. Pa effaith y mae cludiant yn ei chael ar fywyd gwaith pobl?

**Gwell gwasanaethau cyhoeddus:**

9. Beth yw profiadau pobl o allu cael mynediad at yr help y mae'i angen arnynt gan wasanaethau cyhoeddus a sicrhau'r help hwnnw?
10. Beth yw profiadau pobl o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus? Gwasanaethau allweddol penodol megis tai, iechyd ac addysg.

**Fy nghymuned leol:**

11. Beth yw barn pobl am yr ardal y maent yn byw ynddi – yr ardal leol a'r Cymoedd yn fwy eang?
12. Beth yw'r cryfderau/gwendidau allweddol?
13. A hoffai pobl aros yn y Cymoedd neu symud i rywle arall?
14. A yw elfennau allweddol cymunedau cydlynus ac iach yn amlwg yn ardaloedd Tasglu'r Cymoedd?
15. Sut all gwaith Tasglu'r Cymoedd gyfrannu at y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol?
16. Beth yw profiadau pobl o gludiant – cyhoeddus neu breifat/ar gyfer gweithgareddau heblaw gwaith?

## Atodiad 2 – Holiadur yr arolwg

**Tasglu'r Cymoedd**
**Arolwg Dinasyddion 2019**

**Terfynol - ar gyfer PRIF AROLWG**

Good morning/ Bore da
Good afternoon/ Prynhawn Da
Good evening / Noswaith Dda.

CYFARWYDDIADAU CYFWELYDD: RHAID CYFWELD Y PERSON A ENWIR AR RESTR NSW

Fy enw i yw ………. o Beaufort Research ac rwy'n ffonio ar ran Llywodraeth Cymru. Ar ryw adeg rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, fe wnaethoch gymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ac fe ddywedasoch y byddech yn hapus i ni gysylltu â chi eto.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg i ddeall sut mae pobl yn gweld yr ardal lle maent yn byw ac yn gweithio ynddi fel y gall eu llais helpu i lunio unrhyw newidiadau a wneir yn yr ardal. Rydym yn siarad â phobl o wahanol rannau o Dde Cymru a'r Cymoedd, a bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i lywio sut y gall Llywodraeth Cymru helpu bywydau pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Bydd ymatebion yr arolwg yn cael eu crynhoi mewn adroddiad, a ni fyddwch chi'n cael eich adnabod mewn unrhyw ffordd. Bydd yr holl wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol.

Ni ddylai'r cyfweliad gymryd dim mwy na 15 munud. Mae gennych y dewis i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod y cyfweliad.

Gallwch weld manylion llawn ein Hysbysiad Preifatrwydd yn llyw.cymru/arolwgdinasyddion

**QR1 Ydych hi'n hapus i fwrw ymlaen (nawr neu rhywbryd eto)?**
01: Ydw
02: Nac ydw

**QR2 Gallwn gynnal y cyfweliad yn Gymraeg neu Saesneg. Pa iaith sydd well gennych?**
01: Saesneg
02: Cymraeg

**PARHAU YN YR IAITH A DDEWISWYD GAN YR YMATEBYDD**

**CYFARWYDDIADAU CYFWELYDD: OS BYDDAI WELL GAN YR YMATEBYDD GAEL EU CYFWELD YN GYMRAEG AC NID YDYCH YN SIARAD CYMRAEG, TREFNWCH AMSER CYFLEUS I AILGYSYLLTU'R YMATEBWR.**

| ADRAN 1: SWYDDI A SGILIAU |
|---|

GOFYNNWCH I BAWB

Q1 Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau eich statws gwaith ar hyn o bryd?

DARLLENWCH YN UCHEL, YN ÔL YR ANGEN

01: Myfyriwr llawn amser
02: Mewn gwaith cyflogedig
03: Hunangyflogedig
04: Di-waith ac yn chwilio am waith
05: Ddim yn gallu gweithio oherwydd salwch tymor hir neu anabledd
06: Wedi ymddeol
07: Gofalu am y cartref neu'r teulu
08: Gwneud rhywbeth arall
09: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**ADRAN 1 LLWYBR CWESTIWN**

**- Y RHAI SY'N GWEITHIO YN BRESENNOL (CODAU 2 A 3 YN Q1) I ATEB CWESTIYNAU 2 – 32**

**- Y RHAI SYDD DDIM YN GWEITHIO YN BRESENNOL (NID CODAU 2 A 3 YN Q1) I ATEB CWESTIYNAU 33 - 40**

ADRAN GWEITHWYR PRESENNOL

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL

Q2Yn eich prif swydd, faint o oriau'r wythnos (gan gynnwys goramser gyda thâl a heb dâl) ydych chi fel arfer yn gweithio?

01: 15 awr neu lai
02: 16 – 30
03: 31 – 48
04: 49 awr neu fwy
05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL

Q2b Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch trefniadau gweithio?

01: Rwy'n cael cyflog rheolaidd sydd mwy neu lai'r un faint pob wythnos/mis
02: Gall fy nghyflog amrywio pob wythnos/mis yn dibynnu ar faint o waith rwy'n dewis ei wneud
03: Gall fy nghyflog amrywio pob wythnos/mis yn dibynnu ar faint o waith sy'n cael ei gynnig i mi

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL

Q3 Ers faint ydych wedi bod yn gwneud y swydd rydych chi'n ei gwneud ar hyn o bryd?

BLWYDDYN: __________
MIS: __________

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL
Q4 Ydy'r sefydliad neu'r busnes yr ydych yn gweithio ynddo yn...?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Y sector cyhoeddus
02: Y sector preifat
03: Y sector gwirfoddol/elusennol
04: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
05: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL
Q5 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Cytuno'n gryf
02: Cytuno
03: Anghytuno
04: Anghytuno'n gryf

05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

… Gallaf ddewis yr amser yr wyf yn dechrau ac yn gorffen gweithio
… Mae fy swydd yn gofyn fy mod yn parhau i ddysgu pethau newydd
… Mae fy swydd yn gofyn fy mod yn gweithio'n galed iawn
… Rwy'n gweithio o dan lawer iawn o densiwn
… Gall fy nghyflogwr newid fy oriau ar fyr rybudd
… Mae newidiadau i fy oriau gweithio wythnosol yn achosi anawsterau i mi
… Rwy'n cael fy nhrin gyda pharch yn y gweithle
… Mae'n eithaf rhwydd i mi deithio o fy nghartref i'r gwaith

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL
Q6 Faint o ddewis sydd gennych o ran sut yr ydych yn gwneud eich gwaith?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Llawer iawn o ddewis
02: Ychydig o ddewis
03: Dim llawer o ddewis
04: Dim dewis o gwbl

05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
06: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I WEITHWYR PRESENNOL (EITHRIO RHAI HUNANGYFLOGEDIG)

Q7 Dychmygwch fod yna rhyw benderfyniad yn cael ei wneud yn eich gweithle a fyddai'n newid sut yr ydych yn gwneud eich gwaith. Ydych chi'n meddwl y byddech chi'n cael mynegi eich barn ynghylch y penderfyniad ai peidio?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Byddwn
02: Na fyddwn
03: Mae'n dibynnu
04: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
05: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q7 = 1 neu 3

Q8 Faint o gyfle i ddylanwadu ar y penderfyniad ydych chi'n meddwl y byddai gennych chi yn bersonol?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Llawer iawn
02: Eithaf tipyn
03: Ychydig

04: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
05: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I WEITHWYR PRESENNOL (EITHRIO RHAI HUNANGYFLOGEDIG)

Q9 A fyddech chi'n dweud, y byddai trefnu i gymryd awr neu ddwy i ffwrdd yn ystod oriau gwaith i ofalu am faterion personol neu deuluol i chi....?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Ddim yn anodd o gwbl
02: Ddim yn rhy anodd
03: Braidd yn anodd
04: Anodd iawn

05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
06: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL

Q10 A ydych yn meddwl bod yna unrhyw debygolrwydd ohonoch yn colli eich swydd ac yn dod yn ddi-waith yn y deuddeg mis nesaf?

01: Oes
02: Nac oes
03: Ddim yn gwybod
04: Gwrthod

GOFYNNWCH OS Q10 = 1

Q11 Wrth edrych ar yr atebion ar y cerdyn hwn, pa mor debygol ydych chi'n meddwl yw hynny o ddigwydd?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Tebygol iawn
02: Eithaf tebygol
03: Yr un mor debygol â'i gilydd
04: Eithaf annhebygol
05: Annhebygol iawn

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL

Q12 Yn y 12 mis diwethaf, a ydych wedi cael unrhyw o'r mathau canlynol o hyfforddiant neu addysg mewn cysylltiad â'ch swydd ar hyn o bryd?

DARLLEN MWY:

01: Cwrs hyfforddiant a gyflwynwyd wyneb yn wyneb
02: Hyfforddiant yn y gwaith neu arweiniad gan rywun arall
03: Cwrs gohebol neu gwrs ar y we
04: Wedi dysgu eich hunan trwy ddefnyddio llyfr/llawlyfr/fideo/DVD
05: Dosbarth nos
06: Math arall o hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith
07: Dim o'r rhain

GOFYNNWCH OS Q12 = 7 (HEB GAEL HYFFORDDIANT YN L12M)

Q13 A oedd yna unrhyw amser dros y flwyddyn ddiwethaf yn eich swydd bresennol pan fyddai hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sgiliau angenrheidiol?

01: Oedd
02: Nac oedd
03: Ddim yn gwybod
04: Gwrthod

GOFYNNWCH OS Q12 = 7 (HEB GAEL HYFFORDDIANT YN L12M)

Q14 Rydych wedi dweud nad ydych wedi cael unrhyw hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn eich swydd bresennol. Pa rai o'r datganiadau canlynol sy'n berthnasol i chi?

DARLLENWCH YN UCHEL:

… Nid oeddwn eisiau unrhyw hyfforddiant
… Nid oedd fy nghyflogwr yn fodlon darparu hyfforddiant ychwanegol, er fy mod i eisiau hyfforddiant
… Roedd fy ymrwymiadau teuluol yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i amser i wneud hyfforddiant
… Byddai'r hyfforddiant ei hun wedi bod yn straen
… Nid oeddwn angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn fy swydd bresennol

… Ni fyddai hyfforddiant yn fy helpu i gael swydd well yn fy sefydliad
… Mae diffyg hyfforddiant wedi gwneud drwg i fy nghyfleoedd gyrfa

01: Cytuno
02: Anghytuno
03: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
04: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q15 = 1-6
Q15 A oedd yr hyfforddiant a gawsoch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn eich swydd bresennol yn ddigonol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sgiliau angenrheidiol?

01: Oedd
02: Nac oedd
03: Ddim yn gwybod
04: Gwrthod

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL
Q16 Yn gyffredinol, faint o'ch profiad blaenorol, eich sgiliau a'ch gallu y gallwch eu defnyddio yn eich swydd bresennol?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Ychydig iawn
02: Ychydig
03: Eithaf tipyn
04: Bron i gyd

05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
06: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q16 = 1 neu 2 (YCHYDIG IAWN \ YCHYDIG)
Q17 Pam ydych chi'n dweud hynny?

NODWCH AIR AM AIR

____________________________________________________________
____________________________________________________________
____________________________________________________________

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL
Q18 Gan feddwl yn gyffredinol am y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yn yr ardal rydych yn byw, pa mor fodlon ydych chi gyda...

DARLLENWCH YN UCHEL:

… Y nifer o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael
… Ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael

01: Bodlon iawn

02: Eithaf bodlon
03: Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
04: Eithaf anfodlon
05: Anfodlon iawn

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL
Q19 Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?

01: Ydw
02: Nac ydw
03: Nac ydw, ond mae gennyf rywfaint o allu i siarad Cymraeg (PEIDIWCH Â DARLLEN YN UCHEL - CODIWCH OS CYFEIRIR ATO'N DDIGYMELL YN UNIG)
04: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q19 = 1 NEU 3
Q20 A yw unrhyw o'ch cyd-weithwyr yn eich sefydliad yn gallu siarad Cymraeg?

01: Ydyn
02: Nac ydyn
03: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q20 = 1
Q21 A ydych yn siarad Cymraeg gydag unrhyw rai o'r cydweithwyr hyn?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Ydw - gyda nhw i gyd
02: Ydw - gyda'r rhan fwyaf ohonynt
03: Ydw - gyda rhai ohonynt
04: Nac ydw
05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q19 = 1 NEU 3
Q22 A ydych yn siarad gydag unrhyw un y tu allan i'ch sefydliad fel rhan o'ch swydd? Er enghraifft, cwsmeriaid, cleientiaid neu gyflenwyr.

01: Ydyn
02: Nac ydyn
03: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q22=1
Q22a A ydy rhai o'r bobl hyn yn gallu siarad Cymraeg?

01: Ydyn
02: Nac ydyn
03: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q22a= 1

Q23 A ydych yn siarad Cymraeg gyda rhai o'r bobl hyn?

OS OES ANGEN: Hynny yw, gyda phobl y tu allan i'ch sefydliad fel rhan o'ch swydd.

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Ydw - gyda nhw i gyd neu'r rhan fwyaf ohonynt
02: Ydw - gyda rhai ohonynt
03: Nac ydw
04: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I WEITHWYR PRESENNOL (EITHRIO RHAI HUNANGYFLOGEDIG)
Q24 A yw eich cyflogwr yn cynnig unrhyw gyfle i'r staff ddysgu Cymraeg?

01: Ydy
02: Nac ydy
03: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I WEITHWYR PRESENNOL
Q25 Meddyliwch am deithio o'ch cartref i'r gwaith. Pa un o'r atebion canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n ei wneud fwyaf aml?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Teithio i'r un gweithle
02: Teithio i ychydig o wahanol weithleoedd
03: Nid oes gennyf weithle penodol
04: Rwy'n gweithio o gartref (neu'r un adeilad/tir â fy nghartref)
05: Arall
06: Rwy'n byw oddi cartref ar gyfer gwaith (DIGYMELL YN UNIG)
07: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL SYDD YN TEITHIO I UN GWEITHLE / GWEITHLEOEDD GWAHANOL / ARALL (CODAU 1,2 a 5 YN Q25)
Q26a Tua pha mor bell ydych chi'n teithio o'ch cartref i'ch gweithle/gweithle rydych yn ymweld ag ef fwyaf aml?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Llai na milltir
02: Mwy na milltir ond llai na 3 milltir
03: Mwy na 3 milltir ond llai na 15 milltir
04: Mwy na 15 milltir
05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL SYDD YN TEITHIO I UN GWEITHLE / GWEITHLEOEDD GWAHANOL / ARALL (CODAU 1,2 a 5 YN Q25)

Q26b Tua faint mae hi'n cymryd i chi deithio yn ôl ac ymlaen o'r gwaith?

COFNODWCH MEWN MUNUDAU: ____________

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL SYDD YN TEITHIO I UN GWEITHLE / GWEITHLEOEDD GWAHANOL / ARALL (CODAU 1,2 a 5 YN Q25)
Q27 Sut ydych fel arfer yn teithio o'ch cartref i'ch gweithle/gweithle rydych yn ymweld ag ef fwyaf aml?

OS OES ANGEN: Meddyliwch am y dull teithio yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer rhan hiraf eich taith?

01: Trên
02: Bws
03: Bws mini neu goets
04: Beic modur neu moped
05: Car neu fan
06: Tacsi
07: Ar feic
08: Cerdded neu redeg
09: Arall
10: Ddim yn gwybod (SPONTANEOUS ONLY)
11: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL SYDD YN TEITHIO I UN GWEITHLE / GWEITHLEOEDD GWAHANOL / ARALL (CODAU 1,2 a 5 YN Q25)
Q28 Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn cynrychioli 'dim o gwbl' a 10 yn cynrychioli 'gwbl hapus', yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'r *FONT 4amser mae'n gymryd*FONT 0 i chi deithio yn ôl ac ymlaen i'ch gwaith?

0: 0 Ddim o gwbl
1: 1
2: 2
3: 3
4: 4
5: 5
6: 6
7: 7
8: 8
9: 9
10: 10 Gwbl hapus

Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL SYDD YN TEITHIO I UN GWEITHLE / GWEITHLEOEDD GWAHANOL / ARALL (CODAU 1,2 a 5 YN Q25)
Q29 Ar raddfa o 0 i 10, lle mae 0 yn cynrychioli 'dim o gwbl' a 10 yn cynrychioli 'gwbl hapus', yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'r *FONT 4gost*FONT 0 o deithio yn ôl ac ymlaen i'ch gwaith?

0: 0 Ddim o gwbl

1: 1
2: 2
3: 3
4: 4
5: 5
6: 6
7: 7
8: 8
9: 9
10: 10 Gwbl hapus

Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL
Q30 Ym mha awdurdod lleol y mae eich gweithle neu'r man lle rydych yn gweithio gan amlaf?

01: Ynys Môn
02: Blaenau Gwent
03: Pen-y-bont ar Ogwr
04: Caerffili
05: Caerdydd
06: Sir Gaerfyrddin
07: Ceredigion
08: Conwy
09: Sir Ddinbych
10: Sir y Fflint
11: Gwynedd
12: Merthyr Tudful
13: Sir Fynwy
14: Castell-nedd Port Talbot
15: Casnewydd
16: Sir Benfro
17: Powys
18: Rhondda Cynon Taf
19: Abertawe
20: Torfaen
21: Bro Morgannwg
22: Wrecsam
23: COFNODWCH Y DREF/LLE AGOSAF OS NAD YW'R ATEBWR YN SIWR
___________________________

24: Ddim yn gwybod (DIGYMELL YN UNIG AC OS NA ALLWCH ENWI'R TREF / LLE AGOSAF)
25: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL SYDD YN TEITHIO I UN GWEITHLE / GWEITHLEOEDD GWAHANOL / ARALL (CODAU 1,2 a 5 YN Q25)
Q31 Rwy'n mynd i ddarllen ychydig o ddatganiadau y mae pobl wedi'u gwneud am deithio i'r gwaith. Dywedwch wrthyf, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda phob

datganiad.  Nid oes yna atebion cywir nac anghywir, dim ond eich barn bersonol y mae gennym ddiddordeb ynddi.

DARLLENWCH YN UCHEL:

… Mae fy nhaith yn ôl ac ymlaen i'r gwaith yn eithaf di-straen
… Mae'n anodd iawn teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith
… Mae'r system drafnidiaeth yn ddibynadwy felly rwy'n gwybod pryd rwyf angen gadael fy nghartref i gyrraedd y gwaith ar amser
… Mae'r costau teithio yn fy rhwystro rhag chwilio am swydd sy'n bellach o fy nghartref
… Ni fyddwn yn fodlon teithio'n bellach nag yr wyf yn ei deithio i'r gwaith ar hyn o bryd

01: Cytuno'n gryf
02: Tueddu i gytuno
03: Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
04: Tueddu i anghytuno
05: Anghytuno'n gryf

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL SYDD NEB WEITHLE PENODOL / GWEITHIO O'R CARTREF (CODAU 3 a 4 YN Q25)

Q31 Rwy'n mynd i ddarllen ychydig o ddatganiadau y mae pobl wedi'u gwneud am deithio i'r gwaith. Dywedwch wrthyf, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda phob datganiad.  Nid oes yna atebion cywir nac anghywir, dim ond eich barn bersonol y mae gennym ddiddordeb ynddi.

DARLLENWCH YN UCHEL:

….Mae'r costau teithio yn fy rhwystro rhag chwilio am swydd sy'n bellach o fy nghartref
… Ni fyddwn yn fodlon teithio'n bellach nag yr wyf yn ei deithio i'r gwaith ar hyn o bryd

01: Cytuno'n gryf
02: Tueddu i gytuno
03: Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
04: Tueddu i anghytuno
05: Anghytuno'n gryf

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BOB GWEITHIWR PRESENNOL SYDD DDIM YN DEFNYDDIO BWS NEU DREN AR GYFER GWAITH (NID YW'N CODIO 1 NEU 2 YN C27)

Q32 Rwy'n mynd i ddarllen allan rhai o'r rhesymau posib sydd gan bobl dros beidio â defnyddio bysys a threnau mwy i deithio i'r gwaith. Hoffwn i chi ddweud wrthyf a yw pob rheswm yn berthnasol i chi mewn perthynas â defnyddio bysys neu drenau i deithio i'r gwaith.

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Mae'n cymryd rhy hir
02: Dim llwybr uniongyrchol
03: Mae'r safle bws/gorsaf drenau yn rhy bell
04: Rhy ddrud
05: Nid yw'r gwasanaeth yn ddigon rheolaidd/mae'n rhedeg ar yr amseroedd anghywir i mi
06: Nid yw'r gwasanaethau bws a/neu drên wedi'u cydgysylltu (e.e. amseroedd neu orsafoedd/safleoedd)
07: Ddim yn ddigon dibynadwy
08: Anodd i ganfod a yw'r gwasanaeth yn rhedeg ar amser
09: Ddim yn ddigon hygyrch (e.e. ar gyfer cadeiriau olwyn, coetsis)
10: Ddim yn gallu cael sedd/gorlawn
11: Anghyfforddus
12: Ddim yn ddiogel
13: Unrhyw reswm arall
14: Dim o'r rhain [PEIDIWCH Â DARLLEN YN UCHEL]

ADRAN RHAI SYDD DDIM YN GWEITHIO YN BRESENNOL

GOFYNNWCH I BAWB SYDD DDIM YN GWEITHIO YN BRESENNOL

Q33 Pa rai o'r rhain sy'n disgrifio orau eich teimladau am gael swydd yn y dyfodol?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Hoffwn swydd nawr/cyn gynted â phosib
02: Hoffwn swydd o fewn y flwyddyn nesaf
03: Hoffwn swydd rhywbryd yn y dyfodol

04: Ni fyddwn yn hoffi swydd yn y dyfodol
05: Ni fyddaf yn gallu gweithio yn y dyfodol

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS CODAU 1-3 YN Q33

Q34 Pa bellter (mewn milltiroedd) fyddech yn fodlon ei deithio i'r gwaith?

COFNODWCH Y NIFER O FILLTIROEDD: _______

GOFYNNWCH OS CODAU 1-3 YN Q33

Q35 Beth fyddai'r amser teithio i'r gwaith mwyaf (mewn munudau) a fyddai'n dderbyniol?

COFNODWCH MEWN MUNUDAU: _______

GOFYNNWCH OS CODAU 1-3 YN Q33

Q36 Pa mor debygol y credwch y byddwch yn gallu dod o hyd i swydd rydych chi ei heisiau sy'n cyd-fynd â'ch profiad, eich sgiliau a'ch gallu?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Tebygol iawn
02: Eithaf tebygol
03: Eithaf annhebygol
04: Annhebygol iawn

05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
06: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS CODAU 1-3 YN Q33
Q37 Pa mor debygol y credwch y byddwch yn gallu dod o hyd i swydd yr ydych chi ei heisiau sydd ar lefel is na'ch profiad, eich sgiliau a'ch gallu?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Tebygol iawn
02: Eithaf tebygol
03: Eithaf annhebygol
04: Annhebygol iawn

05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
06: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS CODAU 1-3 YN Q33
Q38 Rwy'n mynd i ddarllen ychydig o ddatganiadau y mae pobl wedi'u rhoi am gael swydd yn eich ardal chi. Dywedwch wrthyf, i ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda phob un. Nid oes yna atebion cywir nac anghywir, dim ond eich barn bersonol chi y mae gennym ddiddordeb ynddi.

DARLLENWCH YN UCHEL:

… Nid oes yna swyddi i bobl fel fi o fewn pellter teithio rhesymol
… Mae materion trafnidiaeth yn ei gwneud hi'n anoddach i mi gael swydd
… Mae'n anodd dod o hyd i gyrsiau neu hyfforddiant yn yr ardal hon sy'n darparu'r sgiliau rwyf eu hangen i gael gwaith
…Y dyddiau hyn nid yw'n anodd iawn dod o hyd i ryw fath o waith cyflogedig
…Mae'n anodd dod o hyd i swydd sy'n cynnig incwm rheolaidd cyson
… Mae yna lawer o gymorth ar gael i'ch helpu i ddod o hyd i swydd

01: Cytuno'n gryf
02: Tueddu i gytuno
03: Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
04: Tueddu i anghytuno
05: Anghytuno'n gryf

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS YW’N CYTUNO YN GRYF NEU CYTUNO Â *Mae materion trafnidiaeth yn ei gwneud hi'n anoddach i mi gael swydd*

Q39 Gwnaethoch gytuno bod 'Materion trafnidiaeth yn ei gwneud hi'n anoddach i mi gael swydd'. Allwch chi ddisgrifio beth yw'r materion hyn?

NODWCH AIR AM AIR

______________________________________________________________

______________________________________________________________

______________________________________________________________

GOFYNNWCH I BAWB SYDD DDIM YN GWEITHIO YN BRESENNOL

Q40 Gan feddwl yn gyffredinol am y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i bobl yn yr ardal rydych yn byw ynddi, pa mor fodlon ydych chi gyda...

DARLLENWCH YN UCHEL:

… y nifer o gyfleoedd cyflogaeth
… ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth

01: Bodlon iawn
02: Eithaf bodlon
03: Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
04: Eithaf anfodlon
05: Anfodlon iawn

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**ADRAN 2: GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

GOFYNNWCH I BAWB

Gan newid y pwnc...
Q41 Hoffwn i chi feddwl am ba mor fodlon ydych gyda mynediad i wahanol wasanaethau cyhoeddus yn eich ardal?

Ar gyfer pob un hoffwn i chi ddweud wrthyf a ydych yn fodlon iawn, yn eithaf bodlon, ddim yn fodlon nac yn fodlon, eithaf anfodlon, bodlon iawn neu os nad yw'r gwasanaeth yn gymwys neu'n berthnasol i chi.

DARLLENWCH YN UCHEL:

… Cael apwyntiad mewn meddygfa sy'n gyfleus i mi
… Cael apwyntiad mewn ysbyty o fewn cyfnod rhesymol
… Hwylustod teithio i weld fy meddyg teulu
… Hwylustod teithio i'r ysbyty lleol
… Gallu cael mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer fy hun neu aelod o'r teulu
… Gallu cael lle mewn ysgol dda i fy mhlentyn/mhlant
… Gallu ymweld â pharciau neu fannau agored sy'n agos i mi

… Gallu siarad â rhywun am anghenion tai cymdeithasol neu unrhyw faterion mae fy nheulu yn wynebu
… Gallu ymweld â chyfleusterau hamdden a chwaraeon sy'n agos agos at fy nghartref
… Gallu ymweld â llyfrgell gyhoeddus sy'n agos at fy nghartref

01: Bodlon iawn
02: Eithaf bodlon
03: Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
04: Eithaf anfodlon
05: Anfodlon iawn
06: Ddim yn gymwys/berthnasol

07: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
08: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

## ADRAN 3: CYMUNED LLEOL

GOFYNNWCH I BAWB
Q42 Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych gyda'ch ardal leol fel lle i fyw?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Bodlon iawn
02: Eithaf bodlon
03: Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
04: Eithaf anfodlon
05: Anfodlon iawn

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BAWB
Q43 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?

DARLLENWCH YN UCHEL:

… Rwy'n perthyn i fy ardal leol
… Mae'r ardal hon yn ardal lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda.
… Mae pobl yn fy ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac maent yn ystyriol o'i gilydd.

01: Cytuno'n gryf
02: Tueddu i gytuno
03: Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
04: Tueddu i anghytuno
05: Anghytuno'n gryf

06: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
07: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BAWB

Q44 Yn eich barn chi, beth yw'r pethau gorau am fyw yn eich ardal leol?

NODWCH AIR AM AIR

______________________________________________________________________
______________________________________________________________________
______________________________________________________________________

GOFYNNWCH I BAWB

Q45 Yn eich barn chi, beth yw'r pethau gwaethaf am fyw yn eich ardal leol?

NODWCH AIR AM AIR

______________________________________________________________________
______________________________________________________________________
______________________________________________________________________

GOFYNNWCH I BAWB

Q46 Pa un o'r atebion canlynol sy'n disgrifio orau eich teimladau am fyw yn yr ardal rydych yn byw ynddi?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Hoffwn aros yn yr ardal hon
02: Petawn yn cael y cyfle byddwn yn hoffi symud allan o'r ardal hon

03: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
04: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH OS Q46 = 1 NEU 2

Q47 Pam ydych chi'n dweud hynny?

NODWCH AIR AM AIR

______________________________________________________________________
______________________________________________________________________
______________________________________________________________________

Testun intro - OS GWEITHIWR PRESENNOL Yn gynharach gofynnais ychydig o gwestiynau i chi ynghylch teithio a thrafnidiaeth mewn cysylltiad â'r gwaith. Hoffwn yn awr ofyn ychydig mwy o gwestiynau i chi ynghylch teithio, ond y tro hwn hoffwn i chi feddwl am deithio sydd ddim yn gysylltiedig â'r gwaith.

Testun intro - OS DDIM YN GWEITHIO YN BRESENNOL Hoffwn ofyn rhai cwestiynau i chi am deithio o amgylch eich ardal leol.

GOFYNNWCH I BAWB

Q48 Sut ydych chi fel arfer yn teithio i'r lleoedd canlynol yn eich ardal leol....?

OS OES ANGEN: Meddyliwch am y dull teithio rydych yn defnyddio ar gyfer y rhan hiraf o'ch taith.

DARLLENWCH YN UCHEL:

… Siopau
… Eich meddyg teulu
… Cyfleusterau hamdden megis caffis, bwytai, tafarndai, canolfannau hamdden

01: Trên
02: Bws
03: Bws mini neu goets
04: Beic modur neu moped
05: Car neu fan
06: Tacsi
07: Ar feic
08: Cerdded neu redeg
09: Arall
10: Ddim yn gwybod (SPONTANEOUS ONLY)
11: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

GOFYNNWCH I BAWB

Q49 Yn gyffredinol, pa mor hawdd neu anodd yw hi yn eich barn chi i deithio o amgylch eich ardal leol i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau megis siopau, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau hamdden?

DARLLENWCH YN UCHEL:

01: Hawdd iawn
02: Eithaf hawdd
03: Eithaf anodd
04: Anodd iawn
05: Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
06: Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

DARLLENWCH YN UCHEL

Dyna gyrraedd diwedd yr arolwg, diolch yn fawr iawn am eich amser a'ch cydweithrediad.

Dim ond i gadarnhau, fy enw i yw ……. rwy'n ffonio o Beaufort Research ac mae'r arolwg hwn wedi cael ei gynnal yn unol â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.

Os hoffech wirio ein cymwysterau, gallwch ffonio'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ar y rhif rhadffôn 0800 975 9596.

## Atodiad 3 – Pwysiad a dadansoddi ystadegol

### Pwysoli

A3.1 Y ffrâm samplu ar gyfer yr arolwg hwn oedd 1,519 o ymatebwyr a oedd wedi cael cyfweliad fel rhan o Arolwg Ceneldaethol Cymru ym mlwyddyn archwilio 2017-2018, a oedd yn byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd ac a oedd wedi cytuno ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy ar gyfer ymchwil bellach.

A3.2 Fel a nodwyd yn adran 1.2.3, cynhaliwyd cyfanswm o 609 o gyfweliadau gyda'r grŵp yma. O fewn y sampl hon o gyfweliadau mae potensial ar gyfer bias ar dri cham:

- Ymateb i'r arolwg tebygolrwydd ar hap gwreiddiol (ACC)
- Ymateb i gytuno i gael cyswllt drachefn yn dilyn cwblhau ACC
- Ymateb i Arolwg Dinasyddion Tasglu'r Cymoedd

A3.3 Gan hynny, mae angen i'r sampl derfynol o gyfweliadau gael ei phwysoli i sicrhau ei bod yn cywiro'r biasau posibl hyn a'i bod yn cynrychioli'r boblogaeth ehangach.

A3.4 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn sampl tebygolrwydd ar hap o'r boblogaeth sy'n oedolion yng Nghymru sydd wedyn yn cael ei phwysoli i gynrychioli'r holl oedolion yng Nghymru'n llawn. Ystyrir felly bod proffil y rhai sy'n byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd y cyfwelwyd â hwy yn yr arolwg hwn (gan gynnwys y rhai y cytunwyd ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy a'r rhai na chytunodd) yn cynrychioli poblogaeth ehangach ardal Tasglu'r Cymoedd.

A3.5 Felly, mae ein sampl o 609 o gyfweliadau wedi cael ei phwysoli i gyfateb i broffil pwysedig y rhai sy'n byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-2018 ar y ffactorau canlynol:

- Rhywedd;
- Oedran;
- Statws economaidd;

- Deiliadaeth; a
- Cwintel ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).

## Tabl A.1 Targedau a ffactorau pwysoli

| | ACC 2017-2018 (targed %) | Sampl heb ei phwysoli % | Sampl bwysedig % | Ffactor pwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Cwintel amddifadedd** | | | | |
| C1 | 26 | 23 | 26 | 1.1888 |
| C2 | 30 | 30 | 30 | 0.9981 |
| C3 | 20 | 21 | 20 | 0.9393 |
| C4 | 12 | 12 | 12 | 0.9577 |
| C5 | 12 | 14 | 12 | 0.8293 |
| | | | | |
| **Rhywedd** | | | | |
| Dyn | 49 | 48 | 49 | 1.0232 |
| Menyw | 51 | 52 | 51 | 0.9815 |
| | | | | |
| **Oedran** | | | | |
| 16 i 44 | 43 | 21 | 43 | 2.0580 |
| 45 i 64 | 34 | 38 | 34 | 0.8976 |
| 65+ | 23 | 41 | 23 | 0.5631 |
| | | | | |
| **Statws economaidd** | | | | |
| Mewn cyflogaeth | 51 | 40 | 51 | 1.2668 |
| Di-waith | 3 | 3 | 3 | 1.1429 |
| Economaidd anweithgar | 46 | 57 | 46 | 0.8056 |
| | | | | |
| **Deiliadaeth** | | | | |
| Perchennog | 71 | 79 | 71 | 0.8971 |
| Preifat | 12 | 5 | 12 | 2.2906 |
| Cymdeithasol | 16 | 14 | 16 | 1.1445 |

**Dadansoddiad Chi-sgwâr**

A3.6 Mae'r adroddiad yn defnyddio profion ystadegol i gymharu canlyniadau rhwng grwpiau o'r boblogaeth. Pan fo gwahaniaeth rhwng dau grŵp yn y boblogaeth yn cael ei ddisgrifio fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 ac felly y gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

A3.7 Y prawf chi-sgwâr yw'r prawf ystadegol penodol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas yr arsylwyd arni rhwng newidynnau categoreiddiol (e.e. oedran, rhywedd) yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (e.e. cyfanswm y boblogaeth oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yn ardal Tasglu'r Cymoedd).